# Y DINESYDD

Mehefin 2020 | Papur Pobl Caerdydd a'r Fro | Rhif 448


# Haul, haf a hunanynysu



Coctel dant y llew
td. 6



Mali'r ci eisiau diod oer




Eisteddfod T yr Urdd td. 4 a 5

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Miranda Morton**

***Golygydd Gorffennaf / Awst***
***Wyn Mears***

Cyfraniadau erbyn 27 Mehefin i:
wyn@wynmears.com
13 Mayfair Drive, Bryn Drain,
Caerdydd, CF14 9EN
029 20758726 / 07837 991189

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Galwad i'r byd ddeffro gan bobl ifanc Cymru

Mae'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da flynyddol gan bobl ifanc Cymru i'r byd yn bodoli ers bron i ganrif. Cafodd y gyntaf, ym 1922, ei chyfleu trwy god Morse. Yn ddiweddarach, daeth yn ddarlledad radio ar *BBC World Service*, yna ar y teledu ac yn fwy diweddar ar y cyfryngau cymdeithasol.

Eleni, mae Urdd Gobaith Cymru wedi galw ar bobl ifanc ledled y byd i sicrhau nad yw gwersi a ddysgwyd gan argyfwng COVID-19 yn cael eu hanghofio. Dywed Urdd Gobaith Cymru fod COVID-19 wedi tanlinellu diffygion mawr bywyd modern, ac mae 55,000 o aelodau'r mudiad cenedlaethol yn galw ar arweinwyr gwledydd y G20 i arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â'r materion hynny.

Mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da pobl ifanc Cymru eleni felly yn edrych ar argyfwng COVID-19 a sut y bu'n her enfawr a phoenus i bawb. Mae'r ymateb byd-eang i COVID-19 hefyd wedi dod ag ymdeimlad newydd o frys i ddelio hefo rhai o faterion mawr ein hoes - tlodi, anghydraddoldeb, digartrefedd, newid hinsawdd, byw'n wastraffus, teithio diangen mewn ceir a theithio awyr. Mae Neges eleni yn dweud pa mor drist y byddai pe bai'r ymateb cadarnhaol a llesol i'r materion hyn yn cael ei ddadwneud wrth i'r firws gilio.

Er bod misoedd o waith wedi mynd iddi, cafodd neges wreiddiol 2020 ei newid pan ddaeth yn amlwg bod COVID-19 yn rhywbeth oedd yn mynd i reoli bywydau pawb, yn hen ac ifanc. Gyda'r neges yn cael ei chyflwyno drwy fideo, roedd rhaid ail-feddwl am ddulliau ffilmio'r bobol ifanc, gyda'r cyflwyniad terfynol yn gyfanwaith o glipiau a ffilmiwyd gan y bobol ifanc eu hunain ar draws Cymru.

(gweler gopi o'r Neges ar dud. 21)

## Copi papur o'r Dinesydd

Rydym yn awyddus i gymaint o bobl â phosib i dderbyn y Dinesydd.

Os ydych chi'n gwybod am rywun sy'n methu oherwydd nad oes e-bost ganddyn nhw, yna rhowch wybod i mi ac fe geisiaf drefnu eu bod yn derbyn copi papur.

Diolch,
*Arthur Evans*
(*Cydlynydd Dosbarthu : manylion gyferbyn)*

## Siopau oedd yn gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Gair wrth gall

Ers blynyddoedd rŵan mae pobl yn y byd academaidd yn Ffrainc yn poeni a gofidio am y defnydd cynyddol o eiriau ac ymadroddion Saesneg sy'n prysur ymdreiddio i sgwrsio bob dydd pobl Ffrainc. Yn anffodus mae'r un peth yn digwydd yng Nghymru ac mae'r defnydd o Saesneg yn britho'r sgwrsio ac o ganlyniad yn tlodi'r iaith ac os na ofalwn ni bydd y Gymraeg wedi troi'n fratiaith.

Yr un gair sy'n fy anfon yn benwan ydy'r defnydd helaeth o'r gair 'so' yn lle 'felly'. Ond mae llawer mwy megis *fantastic, lovely, gorgeous, really, lot, great, amazing, actually, special, brilliant*, ac ati! Beth sy'n bod ar bobl dywedwch gan fod digon o eiriau Cymraeg addas i'w cael.

Mae dylanwad y Saesneg ar y Gymraeg i'w weld yn y defnydd o gyfieithu llythrennol o'r naill iaith i'r llall megis eisteddwch i lawr – *sit down* – yn lle eisteddwch, a sefwch lan/i fyny – *stand up* yn lle sefwch, a tyfu lan – *grow up* – yn lle tyfu, a talu sylw – *pay attention* – yn lle rhoi sylw.

Dan ni'n sefyll arholiad yn Gymraeg ac eistedd arholiad yn Saesneg. Dylwn ni ganu'r piano, telyn, trwmped, ffidil ac ati yn Gymraeg a chwarae'r offerynnau yn Saesneg. Hwyrach, dylen ni sôn am daro 'drymiau'! Maen nhw'n defnyddio'r gair *'tocar'* yn Sbaeneg sy'n golygu cyffwrdd.

Mae pobl yn baglu hefyd wrth ddefnyddio'r geiriau 'adref', 'gartref' a 'cartref'. Dach chi'n mynd adre, dach chi'n aros gartre ac yn ymweld â chartre rhywun.

Mae dyfodiad y firws felltith i'n plith wedi golygu llawer o ddefnydd o'r geiriau 'gohirio' a 'diddymu' ond yn aml defnyddir y gair Saesneg *cancel* yn lle 'diddymu'.

Mae 'treulio' a 'gwario' yn peri anhawster hefyd i rai. Dach chi'n treulio amser ond yn gwario arian a beth am y gwahaniaeth rhwng cenhedloedd a chenedlaethau?

Mae camddefnydd o genedl geiriau yn rhemp a chlywir yn aml pobl yn sôn am tair mis, tri blwyddyn, tri rhan, tri ffordd, dau bont, dau wythnos, dau ochr, dau wlad ac ati hyd syrffed.



Yna beth am oedran? Wrth sôn am oedran plant ifanc defnyddir y geiriau dyflwydd a thair blwydd oed yn gywir, ond yna sonnir am bobl a dweud bod person yn ddau ar hugain, ac ati. Pam? Mae gradd hefyd yn air benywaidd a felly mae'r tymheredd wedi codi i ddwy radd ar hugain ac ati.

Cofiwch hefyd ein bod yn siarad â, a sgwrsio â, rhywun ac mae gwahaniaeth rhwng y geiriau 'canolog' a 'chanolig'. Mae gwres canolog yn y tŷ nid gwres canolig sy'n golygu *middling*! Wedyn mae'r gair 'arall' yn troi yn 'eraill' wrth sôn am fwy nag un peth e.e. person arall ond pobl eraill.

Wel, dyma fi wedi bwrw fy mol gan obeithio bydd fy narllenwyr yn cymryd sylw ac yn gwneud eu gorau glas i wella eu Cymraeg os ydy'r sylwadau uchod wedi procio eu cydwybod. Mae ein hiaith yn haeddu parch a chofiwch yr hyn a ddywedodd yr ymgyrchydd iaith Emrys ap Iwan nôl yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, "Os lleddir y Gymraeg fe'i lleddir yn nhŷ eu cyfeillion".

Ond dydy pethau ddim i gyd yn ddu, diolch byth, a chlywir llawer o bobl yn dal i siarad Cymraeg â graen ac un o'r bobl hyn ydy'r meddyg o'r enw Dr Catrin Ellis Williams, gynt o Benllyn, a glywais i yn siarad yn ddiweddar ar raglen "Beti a'i phobl" ac roedd hi'n bleser pur i wrando arni'n siarad ac yn hwb i'r galon.

*Gwilym E Roberts*

## Apêl ar gyfer Dinesydd Gorffennaf / Awst

Oherwydd y firws Covid-19 sy'n ein cadw gartref i bob pwrpas, bydd Dinesydd Gorffennaf / Awst, o reidrwydd, yn wahanol iawn i'r arferol. Ni fydd nifer o'r adroddiadau arferol na'r rhai am ddigwyddiadau penodol i'w cael. Byddwn felly yn dibynnu arnoch chi, y darllenwyr, i fynd ati i ysgrifennu.

Chwi feirdd a'n holl lenorion
sy'n hoffi cyfansoddi,
yn blant neu'n hen mewn dyddiau
rhowch bìn ar bapur heddi'.

Anfonwch i'r Dinesydd
eich hynt a'ch troeon trwstan
wrth fyw bob dydd fel meudwy
yn nyddiau'r firws aflan.

Nawr, gwrandwch ar fy nghyngor,
a pheidiwch gwag-swmera.
Gwnewch ddefnydd da o'ch amser
trwy 'sgwennu a llenydda!

Byddem yn ddiolchgar o dderbyn cyfraniadau, yn gerddi, yn straeon, yn ysgrifau ayyb. Gall y rhain fod yn ddoniol neu yn ddwys. Anfonwch eich cyfraniadau at Wyn Mears, golygydd rhifyn Gorffennaf / Awst erbyn 27 Mehefin: wyn@wynmears.com




# Miloedd yn cystadlu a mwy yn ymuno yn hwyl yr ŵyl!

“Eisteddfod wahanol ond Eisteddfod wych!” Dyna oedd addewid Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd, Sian Eirian ar drothwy eisteddfod arloesol a’r cyntaf o’i bath erioed, sef Eisteddfod T. Cafodd Eisteddfod T ei chynnal gydol wythnos olaf Mai.

Gyda’r eisteddfodau cylch a sir ar eu hanterth, bu’n rhaid gohirio Eisteddfod yr Urdd eleni tan y flwyddyn nesaf oherwydd COVID-19. Ond i lenwi’r gwacter, penderfynwyd mentro a chynnal eisteddfod ddigidol am y tro cyntaf, gyda chystadleuwyr yn anfon fideos o’u perfformiadau i gael eu beirniadu a chyfuniad o destunau traddodiadol a chystadlaethau hwyliog, gwahanol ar gyfer teuluoedd a ffrindiau o bob oed.

Wrth i’r eisteddfod ddigidol gyntaf erioed ddod i ben yn sgil wythnos gyffrous o gystadlu, mae’r cyfryngau cymdeithasol yn llawn negeseuon o gefnogaeth a diolch gan gystadleuwyr, hyfforddwyr, athrawon a chynulleidfaoedd fel ei gilydd.

Cynhaliwyd Eisteddfod T trwy gydol yr wythnos gan ddenu dros 6000 o gystadleuwyr mewn mwy nag 80 o gystadlaethau, gyda chystadlaethau ychwanegol. Ymunodd cynulleidfaoedd yn yr hwyl, ar deledu, radio ac ar-lein gyda mwy na 25 awr o ddarlledu byw ar S4C a 18 awr ar BBC Radio Cymru a gweithgarwch di-baid ar y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd hyd yn oed ‘faes’ eisteddfod digidol ar Facebook, Maes T gyda ‘stondinau’ rhithwir – denodd Maes T fwy na 4,400 o ymweliadau ar ei ddiwrnod cyntaf ac fe'i cadwyd ar agor am ddiwrnod ychwanegol oherwydd y galw.

## Enillwyr Eisteddfod T

***Prif Ddysgwr***



Rosina Catrin Jones o Gaerdydd yw Prif Ddysgwr Eisteddfod T. Mae Rosina, neu Rosie fel caiff ei galw, yn ddisgybl Blwyddyn 13 yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ac yn 18 oed.

Datgelwyd yr enillydd mewn seremoni arbennig oedd yn cael ei darlledu’n fyw ar S4C a BBC Radio Cymru, gyda’r beirniad, Nia Parry, a'r tri chystadleuydd terfynol yn ymuno ar sgriniau o’u cartrefi.

Mae Rosie yn ymddiddori mewn ieithoedd ac yn ymarfer ei Chymraeg gyda’i thad-cu sy’n deall ychydig bach o Gymraeg a chyda’i ffrindiau ar-lein. Mae’n gobeithio yn y pen draw bod yn athrawes ieithoedd tramor mewn ysgol Gymraeg. Mae Rosie hefyd yn rhan o grŵp sy’n helpu’r gymuned yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yn ail daeth Luke Parfitt ac yn drydydd Niomie Griffiths, y ddau o Ysgol Gyfun Aberpennar.

***Prif Ddramodydd***



Nest Jenkins yw Prif Ddramodydd Eisteddfod T. Daw Nest yn wreiddiol o Ledrod ger Tregaron, ond bellach mae hi ar ei thrydedd flwyddyn yn astudio’r Gyfraith a’r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Ei gobaith yn y dyfodol yw mentro i fyd darlledu, gan ddilyn cwrs ôl-radd mewn Newyddiaduraeth Darlledu y flwyddyn nesaf.

Mae Nest yn unigolyn prysur a gweithgar. Bu’n gyflwynydd radio ar Xpress Radio, gan gyd-gyflwyno dwy sioe lwyddiannus ar yr orsaf a chafodd un ei chynnwys ar Radio Cymru am gyfnod. Bu hefyd yn Llywydd y Gym Gym, sef Cymdeithas Gymraeg y brifysgol.

Mae’n un sy’n mwynhau eisteddfota ac wedi dod i’r brig yn genedlaethol am ganu’r delyn, piano a llefaru sawl tro. Mae’n aelod o Aelwyd y Waun Ddyfal ac wedi bod yn hyfforddi’r parti llefaru ers dwy flynedd.

Mae Nest yn derbyn tlws wedi ei greu yn arbennig gan y cerflunydd Ann Catrin. Yn ail mae Delyth Evans o Silian ger Llanbedr Pont Steffan ac yn drydydd mae Sion Wyn Evans o Felin-fach, ger Llanbedr Pont Steffan.

***Prif Lenor***



Mared Fflur Jones o Ddolgellau yw enillydd Prif Lenor Eisteddfod T, gyda darn o waith “llawn cariad a gwewyr”.

Yn ferch fferm Fronalchen ar gyrion Dolgellau, mynychodd Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain ac Ysgol y Gader, Dolgellau cyn symud ymlaen i’r chweched dosbarth yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth. Mae Mared ar fin cwblhau ei

hail flwyddyn yn astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'n hen law ar ennill eisteddfodol – wedi ennill cadair Eisteddfod Ysgol y Gader ac wedi dod yn ail ac yn drydedd am gadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Mae'n chwarae rygbi, yn canu a pherfformio ac yn treulio'r cyfnod hwn yn helpu ar y fferm, yn darllen ac ymgymryd ag ambell brosiect 'DIY'.

***Prifardd***

Prifardd Eisteddfod T yw Osian Wyn Owen o'r Felinheli. Mae'n wyneb cyfarwydd i'r Urdd gan mai fe oedd enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Brycheiniog a Maesyfed yn 2018. Mae gan Osian achos i ddathlu gan iddo hefyd ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth y Prif Lenor. Mae hefyd yn un o'r ychydig rai i gyflawni'r 'dwbl' yn Eisteddfod Ryng-golegol Llanbedr Pont Steffan yn 2018 sef ennill y gadair a'r goron.

Yn wreiddiol o'r Felinheli, mae Osian bellach yn byw yn Nghaernarfon. Dylai fod yn graddio gyda gradd MA o Brifysgol Bangor fis Mehefin ond oherwydd yr amgylchiadau, gohiriwyd hyn.




Ysgrifennu a gwleidyddiaeth yw ei brif ddiddordebau, ac mae wedi bod yn mwynhau ymarferion rhithwir wythnosol Côr Dre! Ar hyn o bryd mae'n taflu ei hun i'w swydd newydd fel swyddog y wasg, ac yn mwynhau dysgu cynganeddu i ddosbarth rhithwir brwd iawn.

Yn ail roedd Cristyn Rhydderch Davies o Gaerdydd ac yn drydydd roedd Lois Campbell o Gelli Aur, Caerfyrddin.

# Gŵyl Ifan 2020

Eleni am y tro cyntaf ers dros 40 mlynedd - 1977 i fod yn fanwl gywir - ni fydd dawnswyr o Gymru benbaladr yn ymgynnull i ddathlu Gŵyl Ifan yn y brifddinas. Fel llawer achlysur arall mae'r Ŵyl wedi cael ei chanslo eleni, ond gobeithio y bydd dathliad yn digwydd dros benwythnos 25-27 Mehefin, 2021.

Yn y cyfamser, efallai gallaf adrodd cwpl o storïau bach am y "Pawl Haf". Y digwyddiad mwyaf dramatig efallai, oedd y Pawl yn torri yn ei hanner wrth i ni ei godi yn Sain Ffagan ym 1990. Yn rhyfeddol llwyddodd Dave Burke, un o selogion yr Ŵyl dros y blynyddoedd, i ddal y foment hanesyddol ar gamera. Mae'r sioc i'w weld yn amlwg ar wynebau ac yn osgo cyrff y dawnswyr. Ar Ŵyl Ifan arall fe gipiwyd y Pawl gan un o'r timau eraill, a'i guddio. Wrth lwc, fe welodd un o blant y Cwmni ble'r oedden nhw wedi ei guddio. Heb anghofio am y flwyddyn pan ddaeth Dawnswyr Penybont â'u pawl eu hunain i'r Ŵyl, un symudol, oedd ddim yn hanner maint y Pawl Haf arferol, ond yn eitha digri.

Gyda chodi'r Pawl Haf ar lawnt Neuadd y Ddinas dros y blynyddoedd, rydym wedi dysgu mai peryglus iawn yw ei adael dros nos Sadwrn yng nghanol y ddinas. Unwaith, roedd hi mor anodd ei godi allan o'r twll (y twll anghywir, mae'n debyg) fel y bu'n rhaid i ni gael JCB i'w dynnu allan. Wrth wneud hyn, disgynnodd y ceiliog (metel) a glanio ar do caban y JCB. Mae'n amlwg fod rhywun wedi bod i fyny'r Pawl a rhyddhau'r ceiliog rywfaint - diolch byth fod to ar JCB!

Er hynny, mae'n rhaid mai'r stori fwyaf doniol yw'r un pan ganfuon ni un bore Sul fod rhywun wedi dringo lan y Pawl dros nos a dwyn y ceiliog; cofiwch ei fod yn bolyn baner 30 troedfedd o uchder a dim llawer o afael arno wrth ei ddringo!

*Dai James*



# Ryseitiau Merch y Ddinas



## Coctel Dant y Llew

Lowri Haf Cooke

Mae'n ddeg wythnos ers dechrau'r 'lockdown' – cyfnod yr 'ymbellhau' a'r 'gofid mawr'. Rwy'n dal i gyfri 'mendithion – fy iechyd, fy nheulu a 'nghyfeillion, ac yn dymuno'n dda i chi ddarllenwyr ffyddlon y golofn. Mae gen i gymaint o resymau dros fod yn ddiolchgar, gan gynnwys byd natur heddychlon y ddinas. Toc cyn yr argyfwng ces i lawdriniaeth yn yr ysbyty; tair wythnos ar ôl i'r argyfwng gychwyn, derbyniais lythyr gan y GIG i fy sicrhau yr aeth popeth yn iawn. Mae gen i ddigon o waith diddorol, ac opsiynau adloniant di-ri. Ynghyd â 'chymdeithasu' â ffrindiau ar WhatsApp a Houseparty, dwi wedi mwynhau cyfresi teledu, noson gomedi, Gŵyl y Gelli, ac *A Streetcar Named Desire* gan y National Theatre, a'r cwbl o gysur fy soffa.

Dwi'n credu mai'r 'gyfrinach' (os oes ffasiwn beth) ynglŷn â sut i 'dderbyn' newid mawr mewn bywyd yw cadw meddwl agored, ac i gofio – beth bynnag sy'n digwydd – bod newid yn anochel, ar unrhyw adeg. Un peth amlwg a newidiodd i mi yn syth ar gychwyn yr argyfwng oedd y dechreuais i ddeffro cyn toriad gwawr. Yn hytrach na strancio, a brwydro yn erbyn bod ar effro, derbyniais arfer newydd o ddechrau pobi a choginio cyn chwech o'r gloch y bore. Wedi yfed dŵr lemwn, a phaned o de, mae'r gegin yn ffatri creadigrwydd! Rhyw ddwywaith yr wythnos dwi'n pobi torth o fara surdoes, ac yn cymysgu garlleg gwyllt mewn pestl a mortar ar gyfer gwneud pesto 'garlleg gwych'. Fe rostia i lysiau cyn rhoi cawl ar y berw, yna fe af i redeg neu gerdded rownd y parc. Wrth werthfawrogi byd natur, caf fy nharo gan syniadau am ryseitiau ... gan gynnwys pa goctel i'w sawru adeg 'Amser Cwarantini', sef wedi 6 o'r gloch bob nos Wener!

Bydda i'n cyhoeddi rysáit pob coctel ar Instagram ac mae'r ddefod wythnosol yn boblogaidd iawn. Rhois dro ar y Negroni, Margarita, a Granita, a dwi'n bownd o roi tro ar greu Siampên Blodau'r Ysgaw yn ystod yr wythnosau nesa. Ond yn y cyfamser, dyma i chi rysáit greodd argraff fawr – sef Coctel Dant y Llew. Drwy gydol mis Mai roedd cae mawr y Rhath yn garped ohonynt dan draed, ac felly dyma gasglu llond dwy law o'r blodau ynghyd er mwyn creu surop, sy'n sylfaen i'r coctel. Yr unig reol gyda choctels yw gochelwch rhag yfed mwy na dau – mae nhw'n medru bod yn gryf iawn. Yn wir, croeso i chi hepgor y gwirod o'r rysáit os oes gwell ganddoch sawru diod ysgafn. Ond â minnau ar effro o bump o'r gloch y bore, dwi'n cysgu ar fy nhraed erbyn deg o'r gloch y nos. Golyga hynny nad oes galw am 'Flewyn y Ci' drannoeth wedi sawru coctel Dant y Llew.



*Surop Dant y Llew*

*Cynhwysion*

Dwy Lond Llaw o Flodau Dant y Llew
Hanner Lemwn
300ml Dŵr
250ml Siwgr

*Dull*

Casglwch lond dwy law o flodau dant y llew. Golchwch y blodau mewn dŵr oer cyn eu gosod mewn sosban â 300ml o ddŵr a hanner lemwn. Dewch â'r dŵr i'r berw, yna diffoddwch y gwres, a gadewch i'r gymysgedd stwytho am ddiwrnod. Yna, rhidyllwch y blodau a'r lemwn o'r gymysgedd, a dychwelwch y dŵr melyn i'r sosban. Ychwanegwch 250ml o siwgr, a dewch â'r dŵr melys i'r berw.

Pan fydd y siwgr wedi toddi'n llwyr, gostyngwch y gwres ychydig, a mudferwi am 20 munud. Yna diffoddwch y gwres, a gosodwch y surop dant y llew mewn jar (neu jariau) glân. Os ydych yn dymuno i'r surop dewhau, yn debycach i fêl, gadewch y gymysgedd i fudferwi am 10 munud arall. Profwch y gymysgedd; fe ddylai'r surop lynu at gefn llwy. Mae hwn yn hyfryd ar dost!

Gyda'r surop dant y llew yn barod, dyma feddwl am wirod a fyddai'n gweddu'r blas melys, gwanwynaidd, fel mêl blodau gwyllt, nid annhebyg i flas blodau'r ysgaw *(elderflower)* a chwa ysgafn o sitrws lemwn. Dychmygwch flas medd, neu jin Pollination o ddistyllldy Dyfi, Sir Drefaldwyn; mae'n sawr 'blodeuog' reit fwsoglyd, felly peidiwch â boddi ysgafnder dant y llew gyda blasau gwrth-gyferbyniol sy'n ei lethu, neu'n cystadlu yn ormodol.

Mae'r clasur jin, 'Tom Collins', fel arfer yn cynnwys siwgr a sudd lemwn, felly dyma gyfnewid y siwgr am surop dant y llew ar gyfer 'Twm Collins'! Yn yr un modd, gallech chi'n hawdd greu coctel 'Lemon Drop' gyda fodca a surop dant y llew. Mae 'mesur', gyda llaw, gyfystyr â maint ecob o hylif.

*Twm Collins*

1 Mesur Jin Sych
3 Mesur Dŵr Soda
1 Mesur Surop Dant y Llew
Gwasgiad Sudd Lemwn
Rhew

Cyflwynwch 3 chiwb rhew ac 1 mesur jin sych i hoff wydr, cyn ychwanegu 1 mesur o surop dant y llew, a chymysgu â llwy. Tywalltwch ddŵr soda ar ben y gymysgedd, yna gwasgiad o sudd lemwn i orffen. Addurnwch â blodau Dant y Llew. Iechyd da!

# Pobol y Rhigwm

Y dasg a osodwyd y tro diwetha (tasg 32) oedd llunio pennill neu limrig i unrhyw beth neu unrhyw un sydd yn y newyddion. Wrth reswm, does ond un pwnc wedi llenwi'r newyddion ers canol mis Mawrth, felly byddai'n anodd peidio â chyfeirio at y firws coronog, ond does dim gwahaniaeth am hynny. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond does dim gofod i gyhoeddi'r cyfan, felly detholiad a geir yma. Dyma nhw, a sylwadau ar y diwedd.

**Yr Ateb Arlywyddol**
Dan fasg mae'n harabedd arferol
Mewn adfyd – dyw jôcs ddim yn ddoniol.
Ond 'rôl gair rhyw arlywydd
'N cynghori diheintydd,
Yn ebrwydd daeth gwên yn orfodol.
*Y Trwmpedwr*

**Gornest Cân i Ewrop**
Mae'r newyddion yn ffug neu yn brudd:
Angen codi ein hysbryd y sydd!
'Dewis gân!', medden nhw.
Gwaetha'r modd, ar fy llw,
'Waterloo' a enillodd y dydd.
*Napoleon*

**Breuddwyd a chwalwyd**
Roedd Tony 'di bod ers cryn amser
Â'i fryd ar fod gyda'r sêr.
Ond er siom iddo fe,
Aeth pethe o le,
A wele, ei waddol yw BLÊR!
*An Hysbys*

**Y newyddion? Pa newyddion?**
Tasg anodd i Bobol y Rhigwm:
Di-bennawd yw dyddiau ein hirlwm.
Fawr ddim heddiw'n digwydd,
Yfory'n dra llonydd -
A thrennydd yn dilyn 'run patrwm.
*Y Bardd Cwsg*

Limrigau a gafwyd gan bawb y tro hwn a'r rhan fwyaf o'r cynigion yn cadw at fydr y mesur. Hyd yn oed mewn cyfnod o drasiedi, llwydda'r hen Ddonald i ddweud neu wneud rhywbeth i'w droi'n gomedi. Prin fod angen i'r *Trwmpedwr* feddwl am jôc fwy na'r Arlywydd ei hun. Bu gohirio'r Eurovision yn dristwch i rai (a gorfoledd i eraill…). Mae'r limrig yn dibynnu ar y ffugenw i wneud synnwyr, gan mai brwydr Waterloo a gollodd Napoleon wrth gwrs – clyfar iawn. Bu cyfenw'r prif weinidog Tony yn ddefnyddiol iawn i rigymwyr dros ddegawdau, felly diolch i An Hysbys am atgyfodi'r jôc am Blair/Blêr i'n goglais. Trueni fod mydr y limrig hwn braidd yn gloff.

Y cynnig gorau y tro hwn yw eiddo Y Bardd Cwsg. Cwyno y mae wrth gwrs nad oes newyddion (eraill) yn digwydd o gwbl, a chan fod pob dim ar stop, pur anodd yw hi i newyddiadurwyr a rhigymwyr *Y Dinesydd* fel ei gilydd. A phawb yn hunanynysu, heb ddim i'w wneud, mae'n hawdd meddwl bod pob dydd yn union yr un peth â'r nesa, ac mae limrig Y Bardd Cwsg yn dal hynny i'r dim.

Gwobrwyer Y Bardd Cwsg, gyda diolch i bawb am gystadlu.

**Enillydd tasg rhif 32 yw**

## Dr Phil Ellis, Pen-y-lan

### Tasg 33

Y dasg nesaf i'r rhigymwyr yw pennill, limrig neu gerdd o unrhyw fath ar y testun **Zoom**.

Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at: bryan.val.james@gmail.com erbyn 18 Mehefin.

*Emyr Davies*

# Enillydd gwobr Classical BRIT yn troi'n entrepreneur

Mae Aled Powys Williams, y canwr proffesiynol a chyn-aelod o Only Men Aloud a enillodd gystadleuaeth Last Choir Standing ar y BBC, wedi mentro i fyd teganau.

Roedd rhoi'r iaith Gymraeg yng nghanol chwarae eu plant bach yn bwysig i Aled a'i wraig Liz gan eu bod yn ymwybodol iawn o fanteision dwyieithrwydd o fewn teulu. Ond cawson nhw eu siomi wrth weld bod cyn lleied o nwyddau addysgiadol cyffyrddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda help eu ffrind, Owen, sylfaenydd stiwdio dylunio graffig *Friend and Friends,* fe ddechreuon nhw greu eu nwyddau eu hunain, gan enwi'r cwmni yn MWNCI.

Erbyn hyn mae ganddyn nhw ystod eang o deganau addysgiadol deniadol, ffres a bywiog. Mae'r teganau i gyd wedi'u creu o bren cynaliadwy i gyd-fynd â rheolau FSC. Cafodd Liz ac Aled eu hannog gan rieni oedd yn mynychu cylchoedd chwarae. Doedd gan nifer o'r rhieni yma ddim llawer o Gymraeg ond roedden nhw wedi bod yn chwilio am nwyddau Cymreig i gefnogi addysg eu plant. Mae 'na ganllaw ynganiad i'w cefnogi i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith. Roedd hwn yn bwysig i Liz gan mai dysgwr yw hi hefyd. Mae'r nwyddau wedi cael derbyniad da gan rieni, athrawon a gweithwyr proffesiynol ym myd gofal plant.

Mae Aled a'i deulu'n gobeithio y bydd eu menter newydd yn chwarae rhan bach ond annatod wrth weithio tuag at darged y llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ond yn fwy pwysig, nod Mwnci yw i bawb gael hwyl wrth eu hannog.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.mwnci.co

# Addysgu mewn Cyfnod o Argyfwng

## Ymateb Ysgol Plas Mawr i COVID-19

Defnyddiwyd y term ‘digyffelyb’ ar sawl achlysur i ddisgrifio sefyllfa COVID-19 ac mae’n gwbl addas ar gyfer ei effaith ar ysgolion. Mae’r wythnosau diwethaf wedi bod yn gwbl ddieithr i staff, disgyblion a rhieni, a phawb yn ysu i ddychwelyd at elfen o normalrwydd. Mae’r sefyllfa wedi creu heriau di-ri i ysgolion, a phawb wedi gorfod addasu yn gyflym i ffyrdd newydd a gwahanol iawn o weithio.

Iechyd a lles pob aelod o gymuned yr ysgol yw ein blaenoriaeth a mynegir hynny wrth rieni yn gyson mewn cylchlythyron electronig sy’n llinyn cyswllt rhwng yr ysgol a’n teuluoedd. Mae’r defnydd o dechnoleg ddigidol wedi bod yn fendith yn ystod y cyfnod hwn ac yn caniatáu i staff yr ysgol fedru cyfathrebu yn gyson gyda’n dygwyr a’u rhieni.

Mae staff yr ysgol yn treulio pob diwrnod gwaith yn paratoi pecynnau i’w dosbarthiadau ar Moodle, MS Teams a llwyfannau digidol eraill; yn marcio gwaith disgyblion ac yn cynnig adborth iddynt drwy e-bost; yn mynychu cyfarfodydd fideo ac yn blaen-gynllunio ar gyfer yr wythnosau i ddod. Mae’r staff ar rota yn yr Hwb yn Ysgol Glantaf ac yn gofalu am ddisgyblion bregus a phlant i weithwyr allweddol. Mae llawer o’r athrawon yn gorfod cynnal cydbwysedd rhwng bod yn rhieni a bod yn weithwyr sydd yn her ynddi ei hun. Yn ddi-os mae pawb yn falch o weld y penwythnos i gael ychydig o ysbaid a gorffwys!

Mae’r ysgol yn gweithredu o hirbell ac mae’r dechnoleg ddigidol wedi ein caniatáu i gynnal cyfarfodydd strategol ymysg cydweithwyr, cyfweliadau ar gyfer swyddi ar gyfer mis Medi a chyfarfodydd Llywodraethwyr.

## Dim arholiadau

Gan nad oes arholiadau TGAU na Safon Uwch eleni mae’r athrawon wrthi yn ddiwyd yn pennu graddau ar gyfer pob disgybl ymhob pwnc yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth sydd gan yr adrannau ar gyfer pob disgybl. Mae’n dasg anodd tu hwnt gan gofio fod ambell ddisgybl yn ein synnu bob blwyddyn gyda rhediad hwyr am y llinell derfyn!

Mae yna garfannau o ddisgyblion sydd wedi eu hamddifadu o’r profiad o orffen eu cyfnod yn yr ysgol gyda’r dathliadau traddodiadol. Fydd ‘na ddim gwasanaeth diwedd Blwyddyn 11 a 13; fydd ‘na ddim llofnodi crysau ei gilydd; fydd ‘na ddim prom swanc i'w fwynhau. Fydd y teimlad o falchder a chyrhaeddiad o gwblhau’r papur arholiad olaf ddim i’w deimlo eleni gan filoedd o fyfyrwyr ledled y wlad.

Ar wahân i’n gwaith addysgu, cyfrannodd yr adran Wyddoniaeth 200 pâr o sbectol ddiogelwch i Ysbyty’r Waun ac mae Mrs Nia Clements wedi arwain tîm o weithwyr yn ei chymuned i wnïo gwisgoedd i weithwyr GIG.

## Sefydlu rhith-gôr staff yr ysgol

Bythefnos ar ôl i'r ysgol gau, ar ôl gweld perfformiadau gan rith-gorau lleol, cawsom ein hysbrydoli i ffurfio ein rhith-gôr ein hunain! Mae'r ymateb i'n perfformiad gan aelodau o gymuned yr ysgol a thu hwnt wedi bod yn gadarnhaol iawn, gydag *'19.6k views'* ar Trydar hyn yn hyn. Diolch yn fawr i'r staff gymerodd ran ac i Aled Evans am y gwaith golygu. Yn sicr, mae canu'n eli i'r galon! Roedd y project wedi codi calonnau aelodau'r côr, ac yn ffordd hyfryd a hwyliog i dynnu criw o staff at ei gilydd (o bell).




## Codi gwên

Mae cyfrif trydar @plasmawr_lles wedi bod yn danfon negeseuon cadarnhaol cyson i gymuned yr ysgol er mwyn codi gwên gan gynnwys cwis diweddar i adnabod pwy yw’r aelod o staff o’i lun yn fabi. Cewch weld y lluniau ar ein cyfrif Trydar.

Mae’r gystadleuaeth ysgrifennu limrig ymysg y staff hefyd wedi llwyddo i godi hwyliau pawb ar adeg mor heriol. Dyma un o’r ychydig y mae’n bosib ei argraffu!

Ry’n ni nawr yng nghyfnod corona
A’r (c )gofid yn rhan o’n bywyda’.
Ond daw enfys fwyn
A’i lliw yn llawn swyn
Fydd gen i’r un gŵyn pan eith o ‘ma!

## Beth ddaw nesaf?

Mae yna dipyn o drafod ynglŷn â phryd bydd ysgolion yn ailagor yng Nghymru. Mae’r cynllunio wedi cychwyn a bydd angen ystyried yn ofalus sut i gadw disgyblion a staff 2 fetr ar wahân; gweithredu system un ffordd ar hyd y coridorau ac ar y grisiau; cael darpariaeth PPE; cynnal gwersi gyda dosbarthiadau llai nag arfer a disgyblion wedi eu gwasgaru ar draws yr ysgol - ac a fydd digon o staff yn ddigon iach ac yn rhydd o hunanynysu i fedru cynnal ysgol?

Un peth sydd yn sicr yw y bydd ysgolion yn wahanol iawn i’r arfer am beth amser eto yn ystod y cyfnod ‘digyffelyb’ hwn.

*John Hayes (pennaeth)*



# Disgyblion Ysgol Bryntaf

Wedi dod ar draws llun a elwir yn "y can disgybl cyntaf" yn Ysgol Bryntaf, mae Dewi Rhys yn awyddus i enwi pob un. Tynnwyd y llyn yn Hydref 1954, mae'n debyg, ond erbyn hynny roedd y plant hynaf wedi gadael, rhai wedi symud o Gaerdydd, a rhai yn absennol ar y diwrnod.

Credir bod y rhain wedi bod yn yr ysgol ac wedi gadael, un ai o ran oedran, neu wedi symud: Ethni Daniel, Elizabeth Williams (gadael 1952) Derek Lloyd Jones, Alwyn Evans, Ceri Evans (gadael 1953) Ifan Payne, Arfon Price, Sian Fell, Sian Morgan, Sian Hopkins, Ann Britton, Gwyn Williams, Gwen Becket, Meirwen Deardon, Eryl Davies, Eluned Rees, Howard Davies, Geraint Talfan Davies, Olwen Rees.

Mae nifer eraill heb fod yn y llun, neu heb eu hadnabod - Morfudd Rowlands, Robert Andrew, Carolyn Boyle, Eluned Hopkins.

Diolch i Alwyn Evans am roi cynnig ar enwi cymaint o'r disgyblion. Mae'r enwau'n cychwyn ar y chwith yn y rhes cefn.

Byddai Dewi Rhys yn hynod falch o gael mwy o wybodaeth oddi wrth ddarllenwyr y *Dinesydd*, drwy ei e-bostio at ôl_dewi@yahoo.co.uk.

Ann Rees, Teleri Jarman, Mair Eluned Evans, Bethan Hughes, Iolo Walters, Iwan Humphreys, Marilyn Martin Jones, Iwan Guy, Siân Evans, Lona Daniel, David Rees, Brenda Thomas, Rhiddian Davies, Angharad Rhys, Elgar Evans, Rhys Williams, Beti Wyn Jones, Ceri Payne, Joy Llewellyn, ?, Gareth Williams, Rhodri Jones, Sian Pierce, Howard Clements, ?, Gwyn Rees, Ann George, Mair Wyn Evans, Richard Hicks, Deryl Jones, Rhiannon Havard, Stephen Jones, Olwen Pugh, Huw Jenkins, ?, John Friend, Ian Hughes, Alun Ceredig Davies, Delyth Roberts, Gwenda Davies, Ann Rowlands, Elinor Morris, Jean Davies, Huw Jones, Elinor Llewelyn, Helen Davies, Alan Davies, Dewi Rhys, Wyn Wheldon Rees, Glyndwr Owen, Brenig Humphries, Eryl Hopkins, Rhona Lyn Davies, Gwenno Thomas, Eleri Thomas, Carol Prater, Delwen Jones, Michael Cutter, Philipa Becket, Margaret George, Dafydd Michael, Susan Rees, Eluned Rees, Haf Lloyd, Glyn Williams/Rhys Williams, Paul Davies, Hywel Evans, Roger Edwards, Roger Chapelle, Christopher Hicks, Alistair Falloon, Delyth Davies, Nia Jarman, Ceri Jones, Eluned Hughes, Thelma Young, Elen Evans, Eirlys Davies, Eirlys Britton, Ann Morgan, Shirley ?, Elizabeth Joanna Jones, Tegwen Hopkins, Huw Prosser, Gillian David, Clarinda Stephenson, Mari Herbert, Susan Quick, Tanwen Jarman, Mrs Enid Jones Davies, Miss Mair Davies, Miss Ceri Jones (Hughes), Mrs Gaynor Jones, Mrs Clements (mam Howard), Mrs Llewelyn (mam Joy), Mrs Roberts (modryb Delyth), Mrs Brick.



Ateb i'r pôs yn rhifyn mis Mai o'r Dinesydd:

Saith corrach yn hunan-ynysu.
Dau fetr sydd rhyngddynt wrth gysgu.
Ond UN, medde, Eira,
Ni chaiff aros yma.
Pa un daflwyd o'ma heb oedi?

A'r ateb:
**Tisiog**



# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

**Yr Athro E. Wyn James**



## CANLYNIAD Y SLAP

Un diwrnod oddeutu'r flwyddyn 1913, chwaraeai bachgen bach tua wyth mlwydd oed yn y stryd yn Nhreganna gydag Arthur, ei frawd, a oedd ddwy flynedd yn iau nag ef. Hwyliodd menyw ddieithr heibio. Oedodd. Clustfeiniodd. Yna gofynnodd iddo: *'Were you two talking Welsh?' 'Yes'*, atebodd yntau. *'Well, take that!'* meddai; a disgynnodd clatsien ar draws ei foch, a honno'n un mor galed nes gwneud iddo wegian ar ei draed. Aeth y fenyw ymlaen yn dalog ar ei thaith, gan ymfalchïo, mae'n siŵr, ei bod wedi gwneud ei dyletswydd ymerodrol a dysgu gwers i'r anwariad bach.

Aeth y glatsien honno maes o law yn rhan o chwedloniaeth hanes y Gymraeg yng Nghaerdydd. Yn wir, mae'n enghraifft berffaith o 'ddeddf y canlyniadau anfwriadol', oherwydd heb y slapen honno, mae'n bosibl y byddai hanes y Gymraeg yn eithaf gwahanol, ac nid yng Nghaerdydd yn unig, ond ymhell y tu hwnt.

Yr un a dderbyniodd y glatsien oedd William Clifford Elvet Thomas (1905–94), a fu'n dysgu yn Ysgol Uwchradd Cathays i Fechgyn rhwng 1929 ac 1969 ac a alwyd gan yr Athro Bobi Jones 'yn un o athrawon Cymraeg mwyaf dylanwadol Cymru'. Ysbrydolodd Elvet Thomas genedlaethau o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Cathays, y rhan fwyaf o lawer ohonynt yn dod o gartrefi di-Gymraeg, i ddysgu'r iaith ac i garu Cymru a'i diwylliant. Mae'r rhestr yn un faith a nodedig, ac yn cynnwys tri a ddaeth maes o law yn ddarlithwyr prifysgol yn y Gymraeg: Bobi Jones (1929–2017), E. G. Millward (1930–2020) a Gilbert Ruddock (1938–98).

Ganed Elvet Thomas yn Abergwaun ond ymgartrefodd y teulu yn 65 Alexandra Road yn Nhreganna tua diwedd 1905, pan oedd yn naw mis oed, a'i dad erbyn hynny'n gysodydd yn swyddfa papur newydd Rhyddfrydol Caerdydd, y *South Wales Daily News*. Ar ddechrau ei hunangofiant, *Tyfu'n Gymro* (1972), mae Elvet Thomas yn nodi mai delfrydau ei rieni 'ymhell cyn bod sôn am Urdd Gobaith Cymru [oedd] delfrydau'r Urdd – bod yn ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist'. Dywed hefyd eu bod yn benderfynol o godi eu plant yn 'Gymry da a allai siarad Cymraeg a charu Cymru', er gwaetha'r hyn a ddywedai 'rhai o grach-Gymry taeogaidd Caerdydd – ac yr oedd digon ohonynt yr adeg honno […] – mai ffwlbri oedd meddwl am godi plant yn Gymry Cymraeg mewn lle fel Caerdydd'. A thrwy eu penderfyniad di-ildio a'u cadernid di-syfl, fe lwyddodd rhieni Elvet Thomas i godi eu tri mab yn siaradwyr Cymraeg, er gwaethaf pob gwrthwynebiad a'r 'môr o Saesneg' a'u hamgylchynai (ac eithrio'r capel Cymraeg yn Severn Road), a hynny mewn dyddiau ymhell cyn bod sôn am ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y ddinas.

Fel y gwelwn o'i hanes, fe rannai Elvet Thomas yr un delfrydau Cristnogol Cymreig â'i rieni, a'r un penderfyniad di-ildio i hybu'r Gymraeg a'i diwylliant. Mae Bobi Jones yn ei hunangofiant, *O'r Bedd i'r Crud* (2000), yn trafod cyfrinach llwyddiant Elvet Thomas fel athro Cymraeg. 'Nid damwain na chyd-ddigwyddiad oedd hi, mae'n rhaid,' meddai, 'fod cynifer o lafnau ifainc yn gyson wedi ymrwymo i fywydau o wasanaeth i'r iaith Gymraeg wedi treiglo drwy'i ddwylo ef'; a daw i'r casgliad nad ei ddulliau dysgu oedd yn gyfrifol am hynny – digon ceidwadol oedd y rheini, a ffurfiau llenyddol y Gymraeg yn cael eu cyflwyno i'w ddisgyblion heb unrhyw bwyslais ar yr iaith lafar. Cyfrinach ei lwyddiant, yn hytrach, oedd iddo ddysgu iddynt am Gymru a'i hanes, a cheisio ennyn ynddynt 'gariad angerddol at Gymru a'i hiaith a'i llenyddiaeth'. Ac i brofi ei bwynt, mae Bobi Jones yn adrodd hanesyn difyr am ei athro yn cyflwyno cerdd I. D. Hooson, 'Daffodil', i'r dosbarth:

> Dyma ef yn darllen y pennill cyntaf ac yn ei gyfieithu i ni. 'Yn dawnsio yn y gwynt a'r glaw/ I bibau pêr rhyw gerddor cudd.' 'A!' ebychai ef wedyn, 'mae honna gystal bob tamaid â Wordsworth!' Ac efallai, am ddeg eiliad, wel am bump o leiaf, efallai'n bod ni wedi'i goelio, fel yr oedd plant yn tueddu i'w wneud gydag athrawon yn y dyddiau llesmeiriol hynny. Wedyn darllenai'r ail bennill am y Daffodil yn gaeth mewn llestr pridd. 'Mae hwnnw yn well na Wordsworth.' Dyddiau braf!

Ac un o'r pethau a roddai'r cryfder a'r unplygrwydd i Elvet Thomas weithio'n ddiflino dros y Gymraeg a'i diwylliant oedd y slap a dderbyniodd yn Nhreganna pan oedd tua wyth oed, oherwydd fe losgai'r geiriau '*Take that!*' yn hwy o lawer nag ôl y bysedd ar ei foch. Meddai am y glatsien honno a'r wers a roddodd iddo: 'O'r dydd hwnnw, gwyddwn fod gan y Gymraeg ei gelynion […]. Er fy mod mor ifanc roeddwn i'n dechrau deall safiad cadarn fy rhieni o blaid y Gymraeg ac yn teimlo'n falch iawn ohonynt hefyd.'


Nid rhyfedd, felly, i'r slap honno fynd yn rhan o lên gwerin y Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae'r canwr Geraint Jarman, un arall o ddisgyblion Elvet Thomas yn Ysgol Cathays, yn cyfeirio ati yn ei gerdd 'Strydoedd Cul Pontcanna':

> A'r slap wrth dyfu'n Gymro
> sy'n rhwygo'r rhuddin ynddo
> cyn troi yn sant,
> cyn troi yn sant.

Ac fe roddodd Dr Dylan Foster Evans yr enw 'Stryd y Slap' ar arhosfan rhwng Treganna a Lecwydd ar ei fap o 'Gaerdydd Danddaearol', er nad yw, meddai, 'yn lleoliad penodol nac yn enw swyddogol', er mwyn 'coffáu digwyddiad nodedig yn hanes y Gaerdydd

Gymraeg' (gweler ei flog, 'Diferion o'r Pwll Coch', 26 Mehefin 2017).

Mae un arall o ddisgyblion disglair Elvet Thomas, sef Dr E. G. Millward, a fu farw yn gynharach eleni, yn sôn yn ei hunangofiant yntau, *Taith Rhyw Gymro* (2015), am ddylanwad ei hen athro arno, gan gynnwys y ffordd y cyflwynodd Gymru iddo mewn ffordd fyw a thrawiadol iawn yn ystod haf 1947, pan oedd Tedi Millward yn y chweched dosbarth, oherwydd yr adeg honno aeth Elvet Thomas ag ef a rhai o'i ddisgyblion eraill ar daith gerdded o ryw 550 milltir o gwmpas Cymru.




Buont yn aros yng nghartrefi siaradwyr Cymraeg ac yn rhai o ganolfannau'r Urdd, gan ymweld â mannau o bwys hanesyddol. Roedd y cyfan yn agoriad llygad i'r Tedi Millward ifanc, a allai ddweud mai Merthyr Tudful oedd ei Gymru cyn hynny, oherwydd ei gysylltiadau teuluaidd â'r dref honno.

Bu'r daith gerdded honno'n drobwynt mawr iddo, nid lleiaf, meddai, am iddo gael y profiad amheuthun o gymysgu â charfannau o bobl ifainc ar draws y wlad 'a oedd yn cael blas arbennig ar fyw trwy'r Gymraeg, profiad newydd a hynod werthfawr i mi'; a chanlyniad y profiad hwnnw oedd 'dechrau hau hedyn yr awydd ynof i fod yn un ohonynt'.

Aeth Tedi Millward yn ei flaen i gael 'blas arbennig ar fyw trwy'r Gymraeg'. Ymserchodd yn ei diwylliant, gan ddod yn un o'n hawdurdodau pennaf ar lenyddiaeth Gymraeg Oes Victoria. Ef hefyd oedd un o brif sylfaenwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 1962, ac yn gyd-Ysgrifennydd cyntaf y Gymdeithas honno gyda Dr John Davies (Bwlch-llan). Felly, ar un wedd, nid gormod yw hawlio mai un o ganlyniadau'r slap honno yn Nhreganna tua 1913 oedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg!

Nid rhyfedd i Bobi Jones ddweud, a'i dafod yn ei foch, y dylid dyrchafu menyw'r slap dyngedfennol honno'n nawddsantes, am iddi drwy nerth ei dwrn gychwyn Elvet Thomas ar ei daith ffrwythlon a dylanwadol: 'o blaid yr iaith,' meddai, 'diau i lawer un wneud llai na hi'! A da iawn fyddai gweld codi plac yn Alexandra Road yn Nhreganna i gofio am gyfraniad nodedig W. C. Elvet Thomas, ac i gofio am y slap.

---

**Annwyl Olygydd**

Diolch yn fawr i'r Athro E Wyn James am ei golofn Llys a Llan diddorol yn rhifyn mis Mai o'r *Dinesydd.*

Mwynheais ddarllen unwaith eto am brifathro enwocaf Coleg y Bedyddwyr, Pont-y-pŵl ac yna Caerdydd a hynny am gyfnod anarferol o faith sef 45 o flynyddoedd, sef y Dr William Edwards.

Trowch y cloc ymlaen ddeugain a phump o flynyddoedd a phwy ddechreuodd ar ei waith fel prifathro'r Coleg ond fy niweddar dad, y Dr Dafydd G Davies, 1970-1985.

Ymddeolodd fy nhad yn 63 oed ond roedd William Edwards yn 77 oed yn rhoi'r gorau iddi. Sut lwyddodd e i gadw trefn ar fyfyrwyr diwinyddol bywiog a direidus yn eu harddegau hwyr ac ugeiniau cynnar, wrth iddo ymddeol yn 1925, wn i ddim!

Diddorol sylwi bod William Edwards yn dal i chwarae golff yn Radur yn 79 oed – blwyddyn cyn ei farwolaeth ar 28 Chwefror 1929. Cofiaf fod fy nhad wedi dechrau chwarae golff yn 40 oed a hynny yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd ac wedi rhoi'r gorau iddi wrth agosáu at ei ben-blwydd yn 80 oed.

Mae gen i gopi o ddyddiadur Undeb Bedyddwyr Cymru 1920 fy nhaid, y Parchg J Clement Davies, oedd yn weinidog ifanc 24 oed yn Penuel Tyddynshon a Llithfaen, ganrif union yn ôl.

Ynddo cyfeirir at Goleg y Bedyddwyr fel Athrofa Caerdydd. Gelwir William Edwards yn llywydd a'r ddau athro yno gydag ef oedd y Parchedigion J M Davies a T W Chance. Cafodd y ddau athro eu cyfle i wasanaethu fel prifathrawon wedi dyddiau William Edwards, J M Davies o 1925-28 a T W Chance o 1936-1943.

Dychmygaf fod William Edwards yn byw yn y Coleg yn Heol Richmond ond lle tybed oedd ei gartref yn ystod ei gyfnod byr o ymddeoliad tan 1929? Roedd J M Davies yn byw yn hynod agos yn 2 Stryd Northcote a T W Chance yn 38 Kimberley Road, Penylan.

Rhestrir 25 o fyfyrwyr diwinyddol ar gyfer 1919-20 ac o ba le y daethant. Mae sillafiad enwau rhai o'r trefi ac ati yn ddiddorol: Treorky, Brynamman, Skewen, Cwmpark, Llanelly.

Daeth cais digon anarferol i'n cartref y mis o'r blaen. Roedd gŵr o'r Amerig o'r enw Richard Bewes wedi ychwanegu pennill 3 a 4 i'r cyfieithiad Saesneg gwreiddiol o 'Dyma gariad fel y moroedd...' gan William Edwards. Awdur y geiriau Cymraeg yw Gwilym Hiraethog, Roedd angen rhywun i gyfieithu'r penillion Saesneg i'r Gymraeg. Llwyddodd Eirian i gyflawni'r dasg ac mae'r trosiad o'i gwaith yn dilyn hwn. Ddychmygais erioed y baswn yn enwi fy ngwraig, Eirian, Gwilym Hiraethog a William Edwards yn yr un frawddeg!

Trwy flynyddoedd du dynoliaeth
  y proffwydi'n llafar fu
am achubiaeth dwyfol gariad
  a bendithion Duw yn llu.
Crist yw'r un i'r holl genhedloedd!
  Rhaid i bawb ei dderbyn Ef.
Eiddo Crist y deyrnas berffaith
  a thragwyddol yn y nef.

Pan na fyddo môr na daear,
  machlud haul na thoriad gwawr,
a'r holl fydoedd wedi darfod,
  dim ar ôl ond gwacter mawr:
yna daw o'i nefol wynfyd,
  Fab y Dyn, mewn rhwysg a bri,
i gofleidio'i holl anwyliaid
  yn un teulu'r Jiwbilî.

*Gwilym Dafydd*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

***Podlediadau Gwasanaethau***

Parhawn i dderbyn dau wasanaeth y Sul drwy gyfrwng y we a thrwy ymdrechion llawer un ac mae'r rhain yn fendith ac yn gysur mawr.

***Dydd Sul 3 Mai***

Â drysau eglwysi yn dal ynghau, soniodd y Ficer, y Parchedig Dyfrig Lloyd, mai nid drws unrhyw eglwys yw'r drws i gorlan teulu ffydd, gan ddyfynnu geiriau'r Iesu, "Myfi yw drws y defaid".

***Dydd Sul 10 Mai***

Cawsom ein hatgoffa ein bod ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol a bod yr arian a godir eleni i'w roi at helpu gwledydd tlotaf y byd i frwydro yn erbyn COVID-19. Roedd y gwasanaeth boreol yn dilyn thema Cymorth Cristnogol yn ogystal â chynnwys gweithred o Gymun Ysbrydol sef hen arfer a addaswyd gan yr Eglwys yng Nghymru.

***Coffi a Chlonc***

Gwnaeth Siân Eleri Thomas gynnal ac arwain bore Coffi a Chlonc ar Zoom ar 16 Mai. Roedd pymtheg wedi troi i mewn am sgwrs. Y bwriad yw cynnal un arall ar 20 Mehefin.

***Dydd Sul 17 Mai***

Hwn yw Sul y Gweddïau pan fo'r gweddïau yn cynnwys gweddi i ofyn bendith Duw ar y meysydd a'r cnydau. Atgoffodd ni mai siarad â Duw yw gweddi a bod adegau o dawelwch hefyd yn rhan o weddïo.

***Dydd Iau'r Dyrchafael***

Dydd Iau'r Dyrchafael oedd ar 21 Mai sef y drydedd o wyliau mawr yr Eglwys ynghyd â'r Nadolig a'r Pasg sy'n nodi Geni, Atgyfodiad ac Esgyniad Crist. Derbyniasom wasanaeth hyfryd unwaith eto.

***Dydd Sul 24 Mai***

Dychwelyd at ei Dad a wnaeth yr Iesu meddai Dyfrig yn y Myfyrdod yn ystod y gwasanaeth boreol, a ni, bellach, yw corff Crist yn y byd i wneud ei waith.

***Cydymdeimlad***

Cydymdeimlwn â Brynmor Jones ar farwolaeth ei chwaer yn ddiweddar.

***Llongyfarchiadau***

Llongyfarchiadau i Susan Thomas a Falmai Griffiths ar ddathlu pen-blwyddi arbennig ym mis Mai.

## EGLWYS Y CRWYS

Cyfarchion i holl aelodau Eglwys y Crwys ac i bawb o ddarllenwyr *Y Dinesydd*. Gobeithio eich bod yn cadw'n iach yn y cyfnod rhyfedd ac anodd yma.

Mae cymdeithas Eglwys Y Crwys yn parhau i gyfarfod - yn ddigidol - gydag aelodau yn edrych ymlaen at foreau Mawrth ac Iau am 'Goffi ar Gamera'. Mae'n braf gweld wynebau a chael sgyrsiau difyr. Diolch i Cerian Angharad am drefnu.

Mae'r Ysgol Sul yn cyfarfod yn llwyddiannus yn wythnosol gyda nifer o blant yn ymuno yn y gweithgareddau. Diolch o galon i'r rhieni gweithgar.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol gyda'r myfyrdod o dan arweiniad Cynan Llwyd. Diolch i'r aelodau a gymerodd ran ac i Peredur Owen Griffiths a Cerian Angharad am y trefniadau.

Cafwyd noson hwyliog o dan nawdd y Gymdeithas gyda chwis 'Lle yn y Ddinas?' o dan ofal William Tiplady. Diolch iddo am baratoi a'n haddysgu am leoliadau o fewn Caerdydd. Llongyfarchiadau i Hannah Thomas a'r teulu ar ddod yn fuddugol Diolch eto i Cerian Angharad. Ydi, mae Cerian yn hynod brysur yn y cyfnod dan glo yma.

## TABERNACL, YR AIS

Er i ni fod am amser heb oedfa yn y Tabernacl yn gynulliad, diolchwn i Rhys a Marc am gynnal oedfaon o'r Tabernacl ar y Sul a llwyddo i'w trosglwyddo dros y we, i'r sawl sy'n medru eu gweld. Bu Dafydd Huw yn hynod barod i arwain ar yr ochr dechnegol a Rhys yn datblygu sgiliau newydd. Bu Dafydd, Euros a Llinos yn barod i gynorthwyo gyda'r organ a bu eu cyfraniad yn hyfryd. Yn yr un modd datblygwyd sgiliau eraill i ddeall cyfarpar Zoom, a chynhaliwyd Dosbarthiadau Beiblaidd yr ifanc a'r oedolion, Cyrddau Gweddi a Chwrdd Diaconiaid; roedd croeso i bwy bynnag oedd â'r cyfarpar i ymuno â'r cyfarfod priodol. Hefyd cafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan y plant gyda llawer o waith golygu gan Noa.

***Cofio Ron Lindsay***

Gyda thristwch daeth y newydd am farwolaeth Ron Lindsay, un a fedyddiwyd gan ei gyfaill agos, y Parchg Raymond Williams. Er nad oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl, bu'n gefnogwr i'r iaith, ac ymroi i gefnogi popeth yn y Tabernacl, o fewn ei allu. Peiriannydd trydanol oedd ef wrth ei broffesiwn. Cynhaliwyd ei angladd yn Sir Benfro ac yno bydd daearu ei weddillion.

***Cofio Margaret Mostyn Jones***

Daeth y newyddion hefyd am farwolaeth Margaret Mostyn Jones. Roedd yn enedigol o Senghennydd, lle y'i codwyd ar aelwyd Gymraeg ei hiaith. Aeth i'r coleg yn y Barri, a bu'n dysgu yn Llundain ac yna yng Nghaerdydd. Roedd gosod blodau yn bleser iddi, a derbyniodd y cyfrifoldeb hwnnw am gyfnod hir yn y Tabernacl.

***Cofio Mair Richards***

Sioc i bawb oedd clywed am farwolaeth cwbl annisgwyl Mair, priod y Parchg Peter Dewi Richards. Bu'n aelod yn Heol y Castell Llundain, lle bu'n ddiacones ffyddlon. Roedd prynu tŷ yng Nghaerdydd yn gam naturiol er mwyn cael gweld y teulu'n gyson. Roedd dod i'r Tabernacl yn reddfol iddynt ac fe ymsefydlon nhw'n wych yn ein plith.

## SALEM, TREGANNA

***Oedfaon Zoom***

Mae oedfaon am 10.15 bob bore Sul ar Zoom yn mynd o nerth i nerth. Erbyn hyn mae tua 300 o aelodau a ffrindiau yn ymuno, ac mae'n gyfle i ni ddod at ein gilydd a chyd-addoli a gweld ein gilydd o bell. Mae barddoniaeth arbennig gan Dewi Rhisiart wedi'i adrodd gan aelodau Salem ar ein tudalen Facebook. Diolch hefyd i Dafydd, Gareth a Geraint am y cynhyrchiad, mae'n rhoi gobaith a chadernid i ni yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Croeso i chi fynd i'r dudalen i'w glywed a'i weld - arbennig iawn.

***Cylchlythyr***

Anfonwyd cylchlythyr yr ofalaeth 'Goleufa' at aelodau Salem i gyd yn ystod y mis, yn fodd i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

***Cydymdeimlo***

Cydymdeimlwn â Lowri Rhys a'r teulu wedi iddi golli ei Nain yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch yn ystod y cyfnod anodd hwn.

## EGLWYS MINNY STREET

Am 10:30 bob bore Sul yn ystod mis Mehefin, byddwn yn parhau i 'gydaddoli' yn ein cartrefi drwy gyfrwng taflenni oedfaon a baratowyd gan ein Gweinidog. Mae'n braf bod yn rhan o fyfyrdod yng nghwmni ein gilydd a'n Gweinidog fel teulu. Diolchwn i'r Gweinidog ymlaen llaw am yr oedfaon hyn ac am y cyfoeth o ddeunydd mae'n ei baratoi ar y we ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd Ysgol Sul Zoom yn digwydd cyn yr oedfa foreol pan fydd teuluoedd yn cymryd eu tro i arwain.

***Cymorth Cristnogol***

Fel arfer, byddwn fel eglwys yn nodi Wythnos Cymorth Cristnogol ac yn sicrhau ffyrdd o gefnogi gwaith yr elusen. Eleni, cynhaliwyd bore coffi er budd Cymorth Cristnogol nid yn y festri ond drwy gyfrwng Zoom! Ymunodd nifer â'r digwyddiad, gan gynnwys rhai a gymerodd egwyl fer o'u gwaith dros ginio. Roedd hi'n braf gweld ein gilydd a chael cyfle i siarad â'n gilydd. Fel rhan o'r digwyddiad, trefnwyd cwis hwyliog a oedd yn llwyddiant mawr. Cyfrannwyd yn hael at yr elusen.

***Genedigaeth***

Croeso cynnes i Lucas Daniel, mab Iona a Claude (Tredelerch) a brawd bach i Ioan a chroeso hefyd i Miriam Haf Wyn, merch Angharad ac Ieuan (Llangynnwr) a chwaer fach i Greta. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

## EBENESER

***Cymorth Cristnogol***

Bu wythnos Cymorth Cristnogol yn un bur wahanol eleni gan nad oedd modd cyfarfod. Er hynny, fe gafodd Ebeneser fore coffi rhithwir fore Sul 10 Mai pan ddaeth criw da a llawen at ei gilydd i gymdeithasu ar Zoom. A do, fe wnaeth pawb yn siŵr bod ganddyn nhw baned a bisged wrth law. Hefyd bu nifer o'n haelodau yn rhan o Gwis Cenedlaethol Cymorth Cristnogol nos Iau, 15 Mai. O drwch blewyn Ebeneser enillodd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau ar-lein neu drwy'r post i'r trysorydd. Llwyddwyd i godi oddeutu £700 i Gymorth Cristnogol.

***Gwe-inidogaeth***

Mae Ebeneser yn cael astudiaeth Feiblaidd wythnosol ar Zoom ac ar hyn o bryd rydym yn dilyn llyfr Tim Chester, *Enjoying God*. Cynhelir ysgol Sul ar Zoom, neu ysgol Zul bellach, am dri bob Sul. Mae criw da yn ymuno a lot o hwyl i'w gael.

Dyma rai dolenni i chi glicio arnynt:

Ebeneser - tudalen Facebook a sianel YouTube

Undeb yr Annibynwyr - tudalen Facebook a sianel YouTube

Yr Eglwys Bresbyteraidd - sianel YouTube EBCPCW.

Diolch am bawb sy'n gyfrifol am y gwaith hwn. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y dydd pan gawn gwrdd â'n gilydd go iawn.

***Cleifion ac mewn gofal***

Da yw gallu dweud fod Seren Ann Jones a Cedric Jones yn gwella yn dda erbyn hyn ac yn parhau i gryfhau. Cofiwn am ddau o aelodau Ebeneser sy'n gaeth i gartrefi gofal sef Rosaline Bowen a Bethan Roberts. Cofiwn yn gynnes atynt hwy a'u teuluoedd

***Gweddïau dros y GIG***

Gweddïwn yn arbennig dros aelodau a ffrindiau sy'n gweithio i'r GIG - Rachel Jones, Aled Lewis, Iolo Doull, Carys Doull, Liza Thomas-Emrus, Mari Lluon a Hamed Kamali, Sioned Ifan, Gruffudd Thomas, Lisa Partridge, Mared Williams, Siân Evans, Rhys Davies, Elin Ellis Jones, Angharad Sutton, Donna Newell, a Jemma Sumner. Ydych chi'n adnabod rhywun sydd ar 'flaen y gad'? Cofiwch a diolch amdanyn nhw!

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Daeth darlleniadau'r Offeren yn ystod mis Mai â digwyddiadau'r Pasg aton ni eleni drwy gyfrwng y dechnoleg fodern - o'r ffordd i Emaus hyd at y Sulgwyn. Mae'n fendith i nifer fawr ohonon ni bod yr Esgob Edwin wedi trefnu dathlu'r Offeren yn ei gartre a'n gwahodd ni i'w rannu gydag e. Mae mor braf clywed ein ffrindiau yn cymryd eu tro i ddarllen – a chlywed acenion yr Wyddgrug a Phontyberem, sir Fôn ac Aberystwyth yn yr un gwasanaeth!

Cawsom ddathlu Difiau Dyrchafael yn yr un modd, ag atsain cerdd Saunders Lewis yn y cof. Ond y tro yma 'Beth *oedd* ymlaen ar fore o Fai ar y bronnydd'? Roedd hi'n fore braf drwy Gymru gyfan, a ninnau'n ymuno i ddathlu ymhob cwr o'r wlad… y 'Tad yn cusanu'r Mab yn y gwlith gwyn'.

Mae'r Tad Allan Jones yn rhannu'r cyfrifoldeb gyda'r Esgob o'i gartre dros dro yn Essex. Pan fydd hyn i gyd drosodd bydd yn symud nôl i ailsefydlu yn ei blwyf yn esgobaeth Northampton. Ond bydd yn teithio nôl i Gymru bob tro bydd cyfle.

Diolch i'r Esgob Regan a'r Tad Allan am eu harweiniad drwy gyfrwng y cyfrwng rhyfedd a defnyddiol hwn.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Bob hyn a hyn mae rhywun yn dod ar draws rhyw damaid o wybodaeth ddifyr a diddorol ar ambell wefan neu gyfrif trydar neu Weplyfr.

Un y deuthum ar ei thraws yn ddiweddar yw gwefan "Friendless Churches" neu "Eglwysi Di-gyfaill" yn ôl Wicipedia. (Ac mae i'r eglwysi hyn "Gyfeillion" yn ogystal - hwyrach bod rhai o ddarllenwyr y *Dinesydd* yn aelodau?). Elusen, wedi ei ffurfiol yn 1957 yw hon, er mwyn achub a gwarchod "eglwysi hanesyddol nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio, ac sydd mewn perygl o gael eu dymchwel, dadfeilio neu eu haddasu'n amhriodol". Mae i'r elusen rôl arbennig yng Nghymru, ac ers 1999 mae'n gweithredu megis "Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi", gan sicrhau arian o du Cadw (70%) a'r Eglwys yng Nghymru (30%) tuag at y gwaith. Yn 2019 roedd 27 o eglwysi yng Nghymru, a 26 yn Lloegr, yng ngofal yr elusen.

Gwna'r elusen "Addoldai Cymru", a sefydlwyd yn 1999, waith tebyg gan "… gymryd meddiant ar ddetholiad o gapeli gwag sydd o arwyddocâd hanesyddol a/neu bensaernïol yn hanes codi capeli ac Anghydffurfiaeth yng Nghymru ac sy'n werthfawr i'w cymunedau lleol." (www.addoldaicymru.org.) Mae wyth capel, o enwadau amrywiol, dan ofal yr elusen ar hyn o bryd.

Mae'n dda deall bod y naill elusen a'r llall yn gwarchod yr "adeiladau", ond, a Bethlehem yn paratoi, ymhen dwy flynedd, i ddathlu 150 mlynedd o addoli yn yr adeilad presennol (a 190 o flynyddoedd ers sefydlu'r achos yn y lle cyntaf yn 1832), gochelwn na rydd cyfnod y "Gofid Mawr" esgus i'w droi yn lle "di-groeso" ac yn waeth na hynny, yn lle "di-gyfaill". Mae arnom addewid i'r sylfaenwyr, heb os.

## BETHEL, PENARTH

Profiad chwithig iawn i ni oedd gorfod cadw draw o angladd ein chwaer Carys, Ddydd Llun, 18 Mai. Naw oedd yn bresennol, gyda'n gweinidog y Parchg Kevin Davies yn arwain. Teimlem fod rhywbeth mawr o'i le am nad oeddem yn gallu bod yno i gynnal Non a Sara a'r cwmni bach. Ychydig ddyddiau cyn y gwasanaeth cawsom, drwy e-bost, gopi o'r weddi a gyfansoddwyd gan ein gweinidog yn benodol at yr achlysur. Bu hyn yn fodd i ni yn y dychymyg gyd-gerdded. Ychydig ddyddiau ar ôl y gwasanaeth cawsom, drwy e-bost, gopi o lythyr cynnes gan Non a Sara yn mynegi eu gwerthfawrogiad o bob arwydd o gydymdeimlad a ddaethai iddynt yn y cyfnod blin hwn yn eu hanes. Roedd derbyn y llythyr rhadlon hwn, o'u trallod, yn gyfrwng i ni deimlo ein bod wedi elwa rywsut, er gwaetha'r arwahanrwydd. Ein gobaith yw y daw cyfle arall, llawen i gofio un arbennig iawn yn hanes Bethel.

Anfonwn ein cyfarchion at Harry, sydd wedi dychwelyd i'w gartref ar ôl cyfnod yn Ysbyty'r Waun yn dilyn cwymp yn ei gartref.

Ers 5 Ebrill (Sul y Blodau) rydym wedi bod yn cynnal ein gilydd yn yr Ofalaeth trwy rannu sawl cyfraniad technolegol, megis:

- Oedfa ar-lein am 10 bob Sul gyda'n gweinidog,
- Oedfa ZOOM am 11 bob Llun, pan fyddwn yn dathlu'r Cymun,
- Bob dydd Mercher derbyniwn, trwy e-bost dan y teitl Meddyliau Mercher, gyfraniadau amrywiol, yn ysgrifau o atgofion, yn fyfyrdodau, yn gerddi a salmau hollol newydd gan Euryn gyda sawl un o'r rhain ar gân gan Siân Meinir a sawl cwis.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

***Dibynnu ar Dechnoleg***

Fel sawl eglwys arall 'rydym yn dibynnu ar dechnoleg er mwyn parhau â'n gwasanaethau a chadw mewn cysylltiad â'n gilydd. Mae Oedfa'r Bore ar YouTube a cheir cyfle i gymdeithasu ar ôl yr oedfa drwy gyfrwng Zoom. Yn ddiweddar mae dau o'n haelodau wedi rhannu ychydig o'u tystiolaeth yn ystod oedfa'r bore.

***Stori Luned***

Pan oedd Luned yn 15 oed yn 2007, cafodd ddiagnosis o osteosarcoma yn ei choes. Cafodd driniaeth gemotherapi cryf iawn gyda'i sgil-effeithiau anodd. Cafodd lawdriniaeth i dynnu'r asgwrn a chael prosthesis titaniwm yn ei le. Roedd rhaid i Luned ailddysgu cerdded a derbyn mwy o gemotherapi. Parhaodd y driniaeth ryw naw mis i gyd, gyda chyfnodau hir yn yr ysbyty.

Er mor ddirdynnol y profiad tystiodd Luned, oedd eisoes wedi credu yn Iesu Grist fel ei gwaredwr, ei bod yn ymwybodol o bresenoldeb a thangnefedd Duw drwy'r cyfnod.

***Stori Rebecca***

Anesthetydd yw Rebecca Jones sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn ysbyty ym Mryste. Teimlai ers yn ifanc ei bod am helpu pobl ddifreintiedig a thlawd, ac ar ôl cymhwyso ym maes anestheteg teimlai fod Duw yn gosod baich ar ei chalon dros wledydd Mwslimaidd, a Bangladesh yn arbennig. Aeth i weithio yn ysbyty cenhadol LAMB gan hyfforddi nyrsys a meddygon i ddefnyddio anesthetig. Ers hynny mae Rebecca wedi ymweld â, a gweithio yn, yr ysbyty sawl gwaith.

Cofiwn am Rebecca wrth iddi weithio ym Mryste gyda chleifion sy'n dioddef o'r feirws.

***Grŵp Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol***

Mae gwerthfawrogiad mawr o'r grŵp yma, dan arweiniad Wyn James, gyda rhai yn ymuno o fannau megis Llundain, Aberystwyth, Abertawe, Caerfyrddin, a'r Wladfa hyd yn oed! Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r grwp drwy e-bostio: gwybodaeth@cwmpawd.org.

## OEDFAON AR-LEIN

Yn ystod y cyfnod argyfyngus hwn, cofiwch fod nifer o'r eglwysi yn rhoi myfyrdodau, gweddïau a gwasanaethau ar-lein. Am fwy o fanylion ewch i'w gwefannau:

www.facebook.com/ebeneser.caerdydd
www.minnystreet.org
www.eglwysdewisant.org.uk
www.eglwys-y-crwys.org.uk
www.tabernacl.cymru
bethlehem.cymru
www.Cwmpawd.org
capelsalem.org

Yn o gystal ceir oedfa Gymraeg ar S4C am 11.00 ar fore Sul.


*'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'*

Ewyllysiau Cymraeg
gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Mae yna duedd i ystyried gwneud Ewyllys fel rhywbeth y dylid ei wneud yn ddiweddarach mewn bywyd ond mae gwneud Ewyllys yn elfen bwysig iawn o gynllunio gydol oes. Os nad ydych yn gwneud Ewyllys gall yr amser a gymerir i ddatrys pethau fod yn hir ac yn ddrud ac yn bwysicach fyth heb Ewyllys y gyfraith sydd yn penderfynu sut y bydd eich ystad yn cael ei throsglwyddo - a gall hyn fod yn groes i'ch dymuniadau.

Fe ddylai pawb wneud Ewyllys er mwyn sicrhau bod eu dymuniadau yn cael eu gwireddu.

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch drwy e-bost ar
**ruthcjones25@aol.com**
*(Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau)*


**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Zoom yw'r normal newydd"*



## Gwilym Dafydd

***Gair gan Mike Edwards, yr Eglwys Newydd***

Cyn y locdown don i erioed wedi clywed am Zoom. Sŵn oedd Zoom o gar gyflym neu roced. Nawr rydw i'n defnyddio Zoom pob diwrnod i gysylltu â theulu a ffrindiau.

| | |
|---|---|
| Dydd Sul | Gwasanaeth boreol yr Eglwys a siarad gyda ein merch Rhian (yp) |
| Dydd Llun | Bore Coffi am 10 o'r gloch gyda ffrindiau Gwesty Pentref a sgwrsio gyda Rhian (yp) |
| Dydd Mawrth | Fy ngwraig yn siarad gyda ffrindiau, un yn Tenerife (yp) a Rhian yn y bore |
| Dydd Mercher | Rhian (yp) |
| Dydd Iau | Siarad gyda hen ffrindiau o'r ysgol, un yn Yr Unol Daleithiau (yp), Rhian (yp) a dosbarth Cymraeg yn y nos |
| Dydd Gwener | Bore Coffi yr Eglwys yn y bore a Rhian (yp) |
| Dydd Sadwrn | Rhian (yp) |

Weithiau rydw i'n defnyddio apiau eraill e.e. FaceTime neu Skype i siarad gyda fy mab a fy chwaer. Basai bywyd yn ystod locdown yn anodd iawn heb y rhain achos dydy ein teulu ddim yn byw yn agos.

Mae Zoom yn hawdd iawn i'w ddefnyddio ac mae'n rhad ac am ddim am 40 munud. Mae rhaid i'r person sy'n trefnu'r cyfarfod anfon gwahoddiad i aelodau'r grŵp. Mae ymarfer corff yn dda i iechyd corfforol ond mae defnyddio Zoom i siarad â phobl yn dda iawn i iechyd meddwl.

***Gair gan Jo Robinson, Tiwtor Cymraeg i Oedolion***



Ers y cyfnod clo, mae wythnos arferol fel tiwtor Cymraeg wedi gweddnewid. Dw i ddim yn cael teithio ar draws Caerdydd i ddysgu mewn amryw o leoliadau felly mae pob dosbarth yn cael ei ddysgu o'm tŷ gyda'r dysgwyr yn ymuno â fi dros Zoom.

I ddechrau, roedd yn brofiad rhyfedd iawn ac roedd rhaid dysgu sgiliau newydd yn gyflym er mwyn gallu dysgu'n llwyddiannus ar-lein. Ro'n i braidd yn nerfus am wneud dosbarth rhithwir ond dw i'n lwcus 'mod i'n dysgu grwpiau o ddysgwyr brwdfrydig a dymunol iawn a oedd yn hapus i allu parhau gyda'r dosbarth ar-lein ac yn amyneddgar wrth i fi ddysgu sut i ddefnyddio'r dechnoleg newydd! Mae'n rhyfeddol pa mor normal mae'n teimlo erbyn hyn. Dw i'n mwynhau gallu gweld fy nysgwyr bob wythnos ac mae'r ffordd newydd o ddysgu i'w gweld yn gweithio'n dda.

Dw i hefyd wedi cael y cyfle i ddysgu dosbarth newydd i ddechreuwyr. Mae'r cyrsiau hyn wedi bod yn boblogaidd iawn ac mae tiwtoriaid ledled Cymru yn dysgu dysgwyr newydd ar gyrsiau sy wedi'u trefnu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r ymateb i'r dosbarthiadau wedi bod yn wych a dw i'n edrych ymlaen at y dosbarth bob wythnos.

Dw i ddim yn gwybod pryd bydda i'n gallu dysgu mewn dosbarth go iawn eto ond, tan hynny, dw i'n falch iawn bod ni'n gallu parhau i greu siaradwyr Cymraeg drwy ryfeddod y we.

***Gair o'r Fro gan Janet Tabor***

Dyma fi yn dal yn y Gwenfô ac yn dal i ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, rydyn ni nawr mewn byd newydd. Diolch byth am Zoom, Skype ac ati. Rydw i'n cael dwy wers arferol yr wythnos ar Zoom ac mae'n wych gweld yr holl wynebau cyfarwydd. Yn yr un modd rydw i'n mynychu Clybiau Clonc cwpl o weithiau bob wythnos hefyd. Dw i hyd yn oed yn llwyddo i gael gwers piano gyda Skype sy'n ardderchog.

Mae fy ngardd yn cael llawer o sylw ac achos mae'r tywydd wedi bod yn dda iawn, rydw i'n treulio llawer o amser y tu allan. Rydw i wedi penderfynu peidio edrych ar gyfryngau cymdeithasol cymaint nawr. Mae pobl yn rhannu llawer o sylwadau cas a phryderus. Rydw i wedi bod yn darllen mwy nag arfer, dim digon o Gymraeg mewn gwirionedd!

Fel pawb, rydw i'n colli fy ffrindiau a fy nheulu yn fawr iawn, ac yn edrych ymlaen at yr amser pan fyddwn ni i gyd yn gallu cwrdd eto a mwynhau cwmni ein gilydd heb ddefnyddio technoleg.

***Amser Jôc gyda Huw James***

Enillodd boi o Aberteifi Gadair yn y Brifwyl. Hysbysebwyd yr orchest yn y *Tivyside* dan y pennawd 'Local boy makes bard.'

***Diolchiadau***

Does dim angen i fi ddweud rhyw lawer y tro hwn diolch i'r cyfraniadau uchod. Ond fel y disgrifiwyd gan Mike, Janet a Jo uchod, rydym o hyd yn medru cyfarfod a sgwrsio trwy gyfrwng Zoom. Mae'n wir mor gyflym rydym wedi dod i arfer byw mewn byd digon gwahanol. Croeso i bawb gadw mewn cysylltiad ac anfon gair at eirianagwilym@gmail.com. Medrwch hefyd ymarfer ychydig o Gymraeg drwy ymateb i ambell neges gen i ar Trydar @GwilymDafydd. Rydw i yno pob dydd fel mae rhai ohonoch eisoes wedi sylwi!

# Alcwyn Deiniol



Roedd gan Alcwyn fwy o ffrindiau na neb dwi'n ei nabod. Alcwyn oedd y mynediad i rwydwaith eang o bobl oedd yn cwrdd yn naturiol mewn gwyliau, gigs, eisteddfodau, cyfarfodydd gwleidyddol neu am ddim rheswm o gwbl. Ef oedd cofiadur y rhwydwaith gyda'i stôr o luniau. Alcwyn ddiffiniodd beth oedd bod yn ffrind a chlywais i rioed neb yn dweud iddyn nhw gael ffrae gydag e. Mi fyddai ei gyd-ddisgyblion yn Ngholeg Llanymddyfri a'i holl gydnabod yn tystio na newidiodd dros y blynyddoedd.

Fe gyrhaeddodd y Barri yn 1964 i weithio yn siop Dan Evans gyda hiwmor ei dad, creadigrwydd ei fam ac anwyldeb y ddau yn ei bersonoliaeth. Ymsefydlodd yn nhref ei dad-cu a'i hen dad-cu a gweithio gyda nifer o ardal Llangadog a wnaeth yr un siwrnai ag ef i siop Dan's. Cafodd ei enwi ar ôl ei ewythr Alcwyn, unig frawd Gwynfor, ei dad. Gan mai Alcwyn, ei wncwl, oedd yn rhedeg y siop, roedd angen i'r staff wybod pwy oedd pwy. Dyna pan ddaeth Alcwyn, y nai, yn Mr Prys i weithwyr a siopwyr Dan Evans. Dros y deugain mlynedd nesaf roedd gwybodaeth a gwasanaeth Mr Prys yn ddiarhebol.


Roedd Alcwyn yn un o'r cyfarwyddwyr pan gaeodd Siop Dan Evans ei drysau yn 2006 ond cafodd yrfa arall wedi ymddeol gan weithio yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Yn 2014 cyhoeddodd gyfrol ddifyr *Siop Dan Evans y Barri* (Cyfres Syniad Da) ac roedd yn cyfrannu'n gyson at raglenni radio a theledu.

Roedd ei ddylanwad ar fywyd Cymraeg y Barri yn sylweddol. Bu'n ysgrifennydd gohebol a diacon yn y Tabernacl, yn ysbrydoliaeth a threfnydd y Cylch Cinio a chefnogai bopeth Cymraeg yn y Fro. Pan oedd angen cymorth gydag unrhyw beth Cymraeg yn y Barri, roedd Alcwyn yno hyd yn oed pan oedd ei iechyd yn dirywio; ac yno bob amser gyda gwên a llawn sbort. Mae gwacter mawr yma hebddo.

Ymhob peth roedd ei bartneriaeth gyda Rhoswen yn rhyfeddol. Mae ei gasgliad enfawr o ffotograffau dros y blynyddoedd yn tanlinellu hyn. Chwalwyd bywyd y ddau a Trystan eu mab gan drasiedi colli eu mab hynaf Prys mor ifanc. Er i'w bywyd newid yn llwyr ni leihaodd eu cyfraniad i fywyd a diwylliant yr ardal.

Mae ei frodyr a'i chwiorydd a'u teuluoedd wedi colli'r brawd mawr anwylaf a fu erioed. Dros 60 o flynyddoedd, mae nhw wedi bod ar antur fawr fel teulu ac mae ffotograffau Alcwyn yn fwy na chofnod artistig o gyfnod cyffrous ac arwyddocaol i'r genedl. Roedd Alcwyn ynghanol chwyldro ac yn creu stori a rhwydwaith i gynnal cof cenedl - buddugoliaeth Gwynfor, yr ymgyrch iaith, y Diliau, y Blew, Radio Cymru, S4C, Datganoli, Senedd.

*Euryn Ogwen Williams*



# Cen Williams



Newyddion trist i ni i gyd oedd clywed am farw Cen Williams ddiwedd mis Mai yn 74 oed.

Roedd Cen yn un o hoelion wyth y *Dinesydd* ar y dechrau'n deg, ac ôl ei law grefftus yn drwm ar y rhifyn cyntaf oll yn Ebrill 1973. Ei gartŵn e oedd i'w weld ar y dudalen flaen – yn herio Cymry Cymraeg y brifddinas i ymateb yn frwd i'r fenter newydd. Dyma grynhoi ei agwedd bositif ef ei hun a'i awydd i ymgyrchu dros yr iaith a Chymreictod.

Roedd Cen yn enwog am ei gartwnau bachog oedd wastad yn codi gwên. Ond roedd yn weithiwr dygn y tu ôl i'r llenni hefyd, wastad yn barod i dorchi llewys a gwneud y gwaith caib a rhaw. Yn y llun uchod fe'i gwelir yn helpu gyda gosod un o'r rhifynnau cynnar – yn nyddiau torri a gludo gyda cow gum!

Mae eraill wedi talu teyrnged i Cen am ei gyfraniad mawr i Gymru, a hynny'n aml yn ei ffordd dawel, ddiymhongar ei hun. Roedd yn athro ysbrydoledig a gyfrannodd yn greadigol at nifer o adnoddau dysgu a diwylliannol, ac yn hael ei gefnogaeth i elusennau, gan gynnwys Ystafell Fyw Caerdydd.

Ar ôl dod yma i'r coleg (o Walchmai ym Môn), un o'r pethau cyntaf a wnaeth gyda chriw o gyfoedion brwd oedd sefydlu Clwb Pêl-droed Cymry Caerdydd – Y Cymric – yn 1969. Isod mae sawl teyrnged iddo oddi wrth yr aelodau.

"Cofiwn ei gyfraniad ar y cae, ei gyfraniad yn "gof" y Clwb, ei gyfraniad yn olygydd yr unig gyfrol i'w chyhoeddi hyd yma am y Clwb, a'i allu fel storïwr, arlunydd a chartwnydd o fri."

"Pan fyddem, ar dro, yn cyfarfod, byddem wastad yn dwyn i gof ddyddiau cynnar y clwb a hynny fel arfer yn gorffen mewn môr o chwerthin iach!"

"Roedd wastad mor heini, gyda'r gallu i redeg fel milgi am oriau ar y cae pêl-droed -'roedd yn anodd dal i fyny efo fo."

Tystia un i'w gyfeillgarwch "wedi i mi a'r teulu symud dramor i weithio" Er eu bod ill dau yn cecran fel ci a hwch yn ystod y gemau "fe gadwom gyswllt a'n gilydd am nifer o flynyddoedd, a bob Nadolig byddai Cen yn anfon cerdyn gwreiddiol unigryw o'i waith ei hun i'r plant."

'Roedd y natur hynaws yma yn cael ei adlewyrchu hefyd "fel rhan o weithgareddau Cymraeg Caerdydd dros yr holl flynyddoedd lle 'roedd yn hynod weithgar wrth hybu ein diwylliant, a bydd yn gadael bwlch anferth ym mywyd llawer iawn, gan gynnwys plant llai ffodus y brifddinas."


"Des i ar ei draws gyntaf yn 14 mlwydd oed pan drefnodd daith feics gyda'r Urdd i'r Iwerddon. Criw o fechgyn o bob rhan o Gymru ar y daith. Fel crwt o'r Cymoedd dyma'r tro cyntaf i mi ddechrau siarad Cymraeg gyda bois o'r un oedran. 'Roedd yn daith fythgofiadwy dan arweiniad Cen."



Mae'r cartŵn ar y dde yn dangos sut y cyfarchodd Cen y canfed rhifyn o'r Dinesydd yn Hydref 1983. Codwn ninnau ein het iddo yntau nawr

Cof da amdano, ac estynnwn ein cydymdeimlad cynhesaf â'i deulu a'i gyfeillion.

*Bryan James a*
*Rhodri Gwynn-Jones*



# Colofn Hannah



## WEDD MANGU AR Y WE!

Wel, 'dw ddim yn gwpod amdenoch chi y dyddie ma, ond w i'n timlo fel cleren wedi 'nal mewn gwe pry cop a ffili dod yn rhydd!! Dyma effaith y sefyllfa bresennol sy' wedi'n taro ni.

Bûm yn watsho pry copyn echddo yn gweu ei we ar ochor ffenest y gecin, ma 'da ni amser nawr i werthfawrogi'r wyrth honno. Sidan yw e wrth gwrs ac yn wydn tu hwnt, driodd gwynt Sul dwetha ei symud e, ond ffili nath e! A thrw' lwc i'r hen bry 'dyw'r glanhawr ffenestri ddim yn dwad y dyddie ma chwaith, wetyn ma fe'n ca'l llonydd, er, 'dw i 'di gofyn i hwnnw cyn nawr i osgoi un cwarel, cwarel y we. O'dd ei wyneb e'n gweud y cwbwl---"Ma cnoc ar hon"! Ie wel! A chi'n gwpod bod hwn, (y pry cop nace'r glanhawr) yn gallu cynhyrchu o leia' tri math o sidan: un llinell diogelwch iddo fynd nôl a mla'n, un gludog i ddala'i fwyd, ag un ffein i lapio'r gleren anffodus.

Protîn yw gwneuthuriad gwe, ag mae e'n iwso tipyn o hwn a felly'n mynd yn fyr o egni. Beth mae e'n neud? Bita'r hen we i ailgylchu'r protîn. Chi'n gweld, nace NI feddylws am y broses na ed, o'dd natur na o'n bla'n ni! A nêt o hyd yw natur.

Dydd Gwener 15 Mai o'dd diwrnod dathlu y defnydd neilon. Fe dda'th sane neilon i'n byd, a syspeders! Enw'r cwmpni o'dd Du Pont, o'r Amerig. Dechreuon nhw yn neud brwshis dannedd â blew neilon iddy nhw, ac yna y sane. Eu slogan gwerthu nhw o'dd "From ration to fashion" ac "As light as a cobweb"

Nawr te, nôl at feddyginiaethe Mangu.

Beth fydde'i moddion hi at yr anhwylder presennol?

Ateb?

Fydde fe ddim wedi dicwdd.

Pam?

Achos o'dd pobol ddim yn trafili pyrt hynny, o'n nhw'n aros yn eu milltir sgwâr, felly, fydde'r cythrel o glefyd ma 'di aros yn Tsheina!!

A sôn am y wlad honno, alla i ddim osgoi cynnwys yr hanes ma.

Gas Mangu ei geni yn Bertwe yn 1869. Yn 1831, fe anwyd dyn yn Bertwe, a'th yn genhadwr i Tsheina. Gruffudd John o'dd ei enw fe, o'dd e'n aelod yng Nghapel Ebenezer yn y dre, ac fe gas ei anfarwoli mewn enw stryd yn acos i'r capel, Gruffudd John St. sy' na heddi. Ma na blac coffa glas 'fyd ar wal y capel erbyn hyn.

Ag i ble a'th e yn Tsheina? Wel i Wuhan!! I le dechriws yn trwble presennol ni. Fe adeiladws e golege, ysbyte ag eglwysi ac ma Coleg Diwinyddol yno yn dwyn ei enw. O'dd e'n athrylith o berson, dysgodd yr iaith Tsheineg a llawer o dafodieithoedd brodorol, un o'dd *"Pin Yin",* a dyma 'i enw yn y dafodieth honno -- Yāng Gêfèi. Cyfieithodd y Beibl (ne'r Bîbl ys gwetws Mangu), i'r Tsheineg. Un o'r ysbyte cynta aethpwyd â'r cleifion yn Wuhan ag e 'leni o'dd yr Union Hospital, ysbyty a godwyd ganddo fe ac mae cerflun ohono tu fa's heddi. Bu yno am drwa 50 mlynedd. Daeth nôl yn 1912, blwyddyn ei farw, ac fe'i claddwyd ym Methel Sgeti ar gyrion Bertwe.

Nawr nôl lle ddechrues – y we. Y ni gyd fel ta' ni'n byw ar hwnnw ar y foment. Ma gwe'r pry cop yn wyrthiol, a hefyd y we fyd eang, a gwaith y creadur bach na rhows yr enw i ni o achos ei ffurf yn lledaenu o fan i fan, ni'n tyrru ato fel clêr o gwmpas pot jam. Hwn nawr yw'n cysylltiad a'n giddyl, hwn yw'n haul a'n helo! Gobitho na chaiff hwn yr un anhwylder o'r un enw, mae e YN dicwdd!!

Un stori am feddyginiaeth Mangu cyn cwpla, gan taw na 'dw i FOD i sôn amdano yn y golofn hon, ond ma'r cyfnod yn mynd â fi ar gyfeiliorn. Nawr yn y 50au a finne tua 9 mlwydd o'd, etho i ar neces i mam i ôl tato. Hewl garegog iawn o'dd 'da ni, ag o achos bo' fi'n riteg, gwmpes i a thorri cwt cas ar y mhen-lin. Cyrradd gatre, a'r gwa'd yn llifo. O'dd y clwyf yn gigno'th a mam yn sôn am stitshis. Entyr Mangu!. Citsho yn llaw i a mynd â fi i'r tŷ bach o'dd ar dop yr ardd pyrt hynny. Miwn â ni, cau'r drws, a dyma hi'n stwffo mhen-lin i miwn i lwythi o we pry cop o'dd wedi'u crynhoi yng nghornel y drws, gwa'd yn stopo stretawe, GWYRTHIOL!! Ond chi'n gweld, ma gwe yn llawn o'r fitamin K sy'n helpu ceulo gwa'd! A ma "webbing" i ga'l nawr yn y fferyllfa, ne "Drygister" fydde hi'n ei alw. Wedd, we Mangu ar y we yn y 50au!!

A beth am y tato? Yn botsh ar wilod yr hewl. A clywch, o'dd pobol yn y gorffennol yn neud pils mas o we, peli bach, a'u llyncu nhw at y ffliw, a'r rhai mentrus yn llyncu pry copyn!

Well symud mla'n yn glou! Penillion bach nawr i gwpla:

'Rwyf inne'n gysurus yng nghornel y siop
Ma'r llyfre'n ca'l llonydd, a finne'r pry cop
Sy' bellach yn debyg i lyfrgell y dre
I ddiawl â'r siop lyfre - ma nhw i gyd ar y we.

### GWOBR Y GLAW

Mae gwe pry cop tu fas i'r ffenest nawr
A'i wedd yn wlyb diferu wrth i'r glaw ddod lawr,
A all yr edau gwan ma ddal y llif?
Gall, gwydn yw, mae'r sidan ma yn gryf.

Yn llaw y gawod hon mae hudlath hir
I droi y cylch yn emau natur pur,
A'r hen bry cop mewn cornel ar y dde
Yn gweld ei gartre'n troi yn "ffiligre".

Mor hardd, mor gain, yn wincio ar y byd
Nid gwe mohono mwy ond mwclis drud,
A'r corryn yn disgleirio ar bob llaw
Yn fodlon gyda gemwaith gwobr y glaw.

*Hannah*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Os ydych chi'n weithiwr sy'n gweithio o adref, efallai bod modd hawlio rhai costau fel lwfans yn erbyn eich bil treth. Gall rhain gynnwys unrhyw offer technolegol newydd, dodrefn swyddfa a lwfans ar gyfer defnyddio ystafell yn eich tŷ fel swyddfa. Hawliwch drwy eich ffurflen dreth neu ffurflen P87.

Yn ystod y mis diwethaf, mae'r taliadau absenoldeb dros dro, neu *'furlough'* wedi cael eu prosesu ac mae'r cynllun wedi cael ei ymestyn tan fis Hydref. Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU wedi dechrau prosesu ceisiadau am y cymorth incwm hunangyflogedig.

Sgamiau newydd i fod yn ymwybodol ohonynt:

- Negeseuon testun yn honedig oddi wrth eich awdurdod lleol yn cynnig ad-daliad o dreth gyngor, lle mae'r sgamwyr eisiau eich manylion banc.
- Galwadau ffôn gan sgamwyr sy'n honni eu bod yn dod o gwmnïau cyfarwydd, fel Netflix neu Amazon Prime, yn dweud wrth gwsmeriaid bod eu cyfrif wedi'u hacio a bod angen iddynt ail-gadarnhau eu manylion banc dros y ffôn.

**Cwestiynau Huw ac Aled**:
*Mae gennyf berthynas sydd yn byw tramor ac yn berchen asedau yn y Deyrnas Unedig. A ydych chi'n gallu helpu?*

Rydym yn cynnig ein gwasanaethau treth ledled y byd i unigolion sy'n byw tramor gydag asedau yn y DU, yn fwyaf diweddar ar gyfer cleientiaid yn UDA, Sbaen, Canada, Malaysia ac Indonesia.

Mae busnes profiant Huw yn delio ag unigolion sydd ag asedau tramor. Dywedodd un cleient tramor yn ddiweddar: "*Boy oh boy*. Mae hyn yn darllen fel nofel John Grisham."

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

---

# Cofio Diwrnod VE

Mae Fictori Dei wedi ei hoelio am byth yn fy meddwl, ac nid am y rhesymau amlycaf.

Symudodd ein teulu o Lanfihangel y Creuddyn i Lanfyllin, Sir Drefaldwyn ar 1 Mai 1945. Y diwrnod canlynol, aeth fy mam â fi i Ysgol y Cyngor. Roeddwn i wedi treulio fy mywyd mewn pentref bach yn Ngheredigion a doedd gen i ddim gair o Saesneg. Roedd symud a mynd i ysgol newydd yn drawmatig, ac roedd darganfod fod y rhan fwyaf o'r plant yn siarad iaith ddieithr yn anodd a brawychus dros ben. Roeddwn i'n bum mlwydd oed ac fe'm rhoddwyd yn nosbarth Babanod Miss James. Fe roddodd hi lond bola o ofan i fi. Fe waeddodd – yn Saesneg - gyfarwyddiadau na allwn i mo'u deall. Ysgytwodd fi, dan sgyrnygu a gwgu. Roedd y plant yn ddigon cyfeillgar, ond doeddwn i ddim yn hoffi Miss James – o gwbl.

Y dydd Mawrth canlynol oedd 8 Mai ac yn ddiwrnod o ddathlu – Fictori Dei – beth bynnag oedd hwnnw. Roeddem ni'r plant i orymdeithio o'r ysgol i rywle arall (yr eglwys falle?). Fe gawsom fŵg ac oren bob un. Gwthiais y mŵg i boced fy gaberdîn nefi newydd, a gafaeliais yn yr oren, heb wybod beth yn iawn i wneud ag e. Roedd orennau'n bethau prin ym 1945. Buom yn gorymdeithio am hydoedd. Roedd 'na fand, a dyn mewn côt goch hir a tsaen am ei wddwg a Miss James yn ein gwarchod a'n cymell ar ein ffordd. Roedd fy nghoesau bach wedi blino'n lân. "Come on, girl!" medde hi a rhoi hwp fach gas i fi nes bo'r mŵg yn saethu allan o 'mhoced a glanio yn ddarnau mân. Ges i gymaint o fraw nes gollwng yr oren ac fe rowliodd hwnnw i ebargofiant rhwng coesau'r plant o'm blaen. Felly heb na mŵg nag oren ac heb ddeall yn iawn beth oedd yn digwydd, fe fartsies ymlaen heb deimlo'n fictoriws, hapus na gloriws.

*Eiry Palfrey*



# CERDYN POST O EFROG NEWYDD

## Lowri Haf Cooke yn holi Melisa Annis

*Mae'r dramodydd Melisa Annis, sy'n wreiddiol o Dreganna, yn byw yn Efrog Newydd gyda'i gŵr, Peter, sy'n yn wreiddiol o'r ddinas.*



Ma hi'n ddiwedd mis Mai, ac mae Efrog Newydd wedi bod ar '*lockdown'* ers deg wythnos. Deg wythnos? Ma hyd yn oed sgwennu hynny yn deimlad rhyfedd. Yn y dechra' mi oedd pob diwrnod yn teimlo fel artaith; falle bod 'artaith' yn air rhy gryf, ond a oes gair i ddisgrifio beth ydy mynd i gysgu mewn dinas swnllyd, fywiog, ddrewllyd a hwylus ac wedyn deffro i ddinas ddistaw, drist ac ofnus? Deg wythnos… Waw... Ond mae'r wythnos hon yn haws, yn well.

Yn y dechrau mi oedd sŵn yr ambiwlans bob awr o'r dydd a nos yn torri drwy'r distawrwydd a'r llonyddwch, yn ergyd i'r enaid. Ma hynny wedi gwella rŵan. Heddiw nes i ddim ond cyfri saith seiren. Ma'r sŵn yn dal i godi ofn; ma'r strydoedd yn dal mor ddistaw, ond 'da ni'n gw'bod bod pethau yn gwella. Dwi'n siŵr bod pawb yn teimlo 'run fath, o Gaerdydd i Mumbai; wedi syrffedu, wedi blino ar fod yn ofnus, yn ysu i fynd allan, yn casáu gwisgo mwgwd. Ond wedi colli dros 16,000 o bobl mewn deuddeg wythnos, yn y ddinas yn unig, ma pawb yn ofalus iawn, ac yn derbyn beth bynnag ma rhaid i ni neud i safio bywydau ein cymdogion, ein teuluoedd, ein ffrindiau.

Tydy dinas Efrog Newydd ddim wedi colli ei chymeriad – ma' dal modd cael hwyl, codi gwên, a'r wythnos d'wethaf, ges i goctels wedi danfon i'm drws – *contactless delivery*! Ma dyn dros ffordd wedi rhoi hamog i fyny ar ei allanfa dân, mae o'n darllen ei lyfr yn yr haul, ac yn siarad efo'r pobl sydd yn pasio ar y stryd, ac ma pob siop gornel (neu bodega fel da ni'n d'eud) dal ar agor drwy'r nos (ac yn llawn papur tŷ bach).

Fel dwi 'di deud, ma pethau wedi gwella, a da ni'n lwcus yma yn Efrog Newydd. Ma'n Prif Lywodraethwr ni, Andrew Cuomo, yn darlledu ar y teledu bob dydd ac yn siarad yn gall - ddim fel y clown oren sydd yn y Tŷ Gwyn. Gwell peidio mentro siarad am hwnna rŵan, neu byddwn ni yma drwy'r dydd. Ma na sôn 'bo' ni am ddechrau agor dipyn mwy wythnos nesa... gewn ni weld.

Dwi'n gweithio yn y theatr. Does dim theatr bellach. Dwi hefyd yn athro yn ngholeg NYU, does dim dysgu yn y dosbarth, dim ond ar ddosbarthiadau Zoom. Do'n i'm yn gwybod beth oedd Zoom dri mis yn ôl, ond dwi arno fo drwy'r dydd rŵan. Ma rhaid i mi gyfadda' bod genna'i fywyd cymdeithasol iachus iawn cyn i hyn i gyd ddigwydd - falle rhy iachus - ond mi oeddwn i allan bron bob nos; yn y theatr, yn ymarfer, yn dathlu llwyddiant ymarfer, unrhyw esgus. Mi fydda i yn cyfarfod â rhai ffrindiau ar Zoom ond rhyfedd ydy cael drinc efo gwyneb ar gyfrifiadur.

Yn anffodus, does dim modd gweld teulu fy ngŵr ar hyn o bryd - ma nhw'n byw ar Long Island, ac ma'r risg i'w hiechyd yn ormod. Mi oeddwn i'n ffodus iawn, a dwi'n sylweddoli hynny rŵan; mi ges i'r cyfle i fynd adref i Gaerdydd cyn dechrau'r *'lockdown'* a threulio amser hefo Mam - o, dwi mor ddiolchgar am yr amser yna.

Mi faswn i yn deud c'lwydda os faswn i'n deud fy mod i'n ymarfer corff. Dwi'n deffro, byta, gweithio, byta, gweithio, cael nap bach, byta a wedyn gwylio Netflix. G'ethon ni brawf COVID bore ma, ac *antibody test* - mi oedd hynny yn beth newydd a chyffrous i neud.

Wrth i mi sgwennu hwn ma'r teledu yn deud bod 100,000 o Americanwyr wedi marw rŵan mewn 12 wythnos. Dwi'm yn deall y rhif, ma o'n rhy fawr i mi ddeall. Beth dwi yn deall ydy pa mor ryfedd ydy edrych ar Facebook a gweld bod ffrind arall i mi wedi marw yr wythnos hon, y pumed ers i hyn ddechrau. Dwi ddim mewn brys i ailagor cymdeithas, fasa'n well genna'i neud hyn yn iawn, ac hefo hyder. Ma rhai taleithiau wedi agor, dwi'n poeni bod pres yn fwy gwerthfawr na pobl...

Y peth tydy pobl ddim o hyd yn sylweddoli am Efrog Newydd ydy mai'r bobl sydd yn g'neud y ddinas; nid Times Square neu'r pizza, ond y bobl ddewr sy'n safio ein bywydau yn yr ysbytai, y rhai sy'n gweithio yn y siopau, yn y bwytai, yn yr ysgolion, yr actorion, y *drag queens*, y cerddorion, y cyfoethog a'r ddim-mor-gyfoethog. Pob un yn eistedd wrth yr un bar... y bobl hynny sydd yn rhoi cymeriad i Efrog Newydd, a dwi'n methu nhw yn fwy na dim.

Fy nghyngor, o Efrog Newydd, i ddarllenwyr y *Dinesydd* ydy, gwisgwch fwgwd. Golchwch eich dwylo yn aml. Peidiwch â gadael i neb ddinistrio'r NHS!

## Cerddi'r Ysgol Farddol

**Y Botel Wag**

O un llwnc mae'n magu'r llid
A'i gafael gynna'r gofid
Sy'n gudd, a'i swyn sy'n gaddo
Rhoi un awr fawr iddo fo.
Ei rhagfarn fel tafarnwraig –
Â'i gwres mynwesol fel gwraig
Wrth y llyw, rhwng byw a bod
Yn adfer pob anghydfod.
Y diawl â'r gwefusau del,
Y butain yn y botel.
Yr hon sy'n rhoddi mor hael
Ac Efa, sarff pob gafael.

*Mererid Jenkins*

**Blagur**


Â hi'n wanwyn o huno a'i aflwydd
    yn cyflym egino,
mae'n cleisiau ar frigau'r fro,
mae'n dolur yma'n deilio.

*Aron Pritchard*

**Oedfa *Zoom***

Y mae Salem y Suliau a Bethel
    yn bwyth drwy ein gwifrau'n
fyfyrdod ac adnodau
a mur hoff o gamerâu.

*Aron Pritchard*




## Oes ffrindiau Cymraeg tramor?

Cyn i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, roedd grŵp Clonc yn y Cwtsh (ymarfer siarad Cymraeg) yn cwrdd bob nos Lun yn Chapter.

Erbyn hyn, dyn ni'n cwrdd ar-lein. Fi sy'n gwesteio ein sesiynau rhithwir pob wythnos.

Mae rhywbeth cyffrous am gynnal sesiynau ar-lein: cewch ymestyn mas i bobl dros y byd i gyd, sy'n methu ymuno â chi fel arall. Dw i wedi siarad â phobl yn Tenerife ac Efrog Newydd, yn ogystal â Chymru a Lloegr.


Oes teulu neu ffrindiau gyda chi tu allan i Gaerdydd/Cymru/Prydain sydd eisiau ymuno â ni? Efallai dych chi'n nabod siaradwyr yn y Wladfa? Sdim ots 'da ni ble maen nhw, (ar y lleuad?) cyhyd â bod nhw'n gallu ymuno â ni dros Zoom.


Gofynnwch iddyn nhw i e-bostio fi ar: welshguide@yahoo.co.uk os bydd diddordeb gyda nhw.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at eu croesawu!

*Rwth Treganna*

## Rhif: 203



### Ar Draws

1. ….. nes cânt awydd i droi'n goeden (11)
9. Brwsiai Dora i groesawu'r Fyddin Goch (7)
10. Y dyn i gael gwobr am actio (5)
11. O! Edward bach, af yn ôl i'r cyfarfod (5)
12. 'Clywais lawer sôn a siarad
 Fod rhyw boen ----- ----- cariad' (JB) (2,5)
13.Cywasgu'r esgeulus nes yn ffug (5)
15. 'Gwaed y ----- a gwyd y graith
 Na welir m'oni eilwaith' (WW) (5)
17. Baledwr yn troi mewn i'r Llys Barn (7)
19. Mynachlog yn sôn am blant dyn ar yn ail (5)
21. Nid mawr yr offer er yn afaelgar (5)
22. Trodd Dai i roi araith (7)
23. 'Pan fwyf yn ----- ----- lawer awr,
 Heb un cydymaith ar hyd llwybrau'r llawr' (JR) (6'1,4)

### I Lawr

2. Cawn ysbaid ar yn ail rhag bod yn simsan (5)
3. Lledu'r had mewn llinach falch (7)
4. Amcan gŵydd heb big yw bod fel peth miniog (6)
5. Prennau Gwenallt (1,4)
6. Ie, Colin dos i ymneilltuo (7)
7. Torri dy galon fach (4,3,4)
8. 'Heb ddim i'w ddifyrru yn awr ----- -----
 Ond y teid yn dod miwn, a'r teid yn mynd ma's'(WNW) (3,8)
14. Amgylchu gwrach yn dawnsio ar ganol y maes (7)
15. Gwaith y gweill yn dal aml dro cyn petruso (7)
16. Mae tei Tim yn gallu denu (6)
18. Treth ar ddechrau diwrnod egnïol gyda William Morgan (5)
20. Peri i rywbeth ddigwydd mewn sach o siwgr (5)

**Enillydd Croesair Rhif 201**
**Tom Roberts, Rhosmeirch, Ynys Môn**

**Atebion Croesair Rhif 201**

**Ar Draws:** 1. Iarll 8. Ar Galfaria 9. Cyfadran 10. Hybu 12. Seboni 14. Gwraidd 15. Arwain 17. Llanelli 18. Bore 19 Dosrannu 21. Ymgynefino 22. Delw

**I Lawr:** 2. Atgyweirio 3. Llaca 4. Sgerti 5. Bloneg 6. Llanharan 7. Camu 11. Briallen ffel 13. O lawenydd 16. Nodwedd 17. Llysaidd 18. Bryn 20. Amod

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Gorffennaf, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Apêl blant y 70, 80 a 90au!

Oeddet ti'n gwisgo crysau cheesecloth, yn caru Edwards H ac yn bwyta Smash? Ydi 'Slim' yn golygu rhywbeth i ti, wnest ti wisgo pedal pushers a chael Vienetta fel trît? Oedd gen ti grysh ar Jabas neu Bethan yn *Tydi Bywyd yn Boen* ac oeddet ti'n gwrando ar Jess a Tynal Tywyll? Fuest ti berchen pâr o Buffaloes ac wyt ti'n gwybod y geiriau i Funky Brenin Disco?

Os mai 'oes', 'ydi' a 'do' ydi'r atebion i unrhyw rai o'r uchod, y tebygolrwydd ydi dy fod yn blentyn y 70au, 80au neu'r 90au... ac os felly mae gan yr Urdd angen clywed gen ti!

I ddathlu ei ben-blwydd yn ganrif oed mewn dwy flynedd, mae Urdd Gobaith Cymru wedi comisiynu'r Prifardd Myrddin ap Dafydd i olrhain hanes y mudiad o'r dechrau'n deg yn 1922 i'r mudiad deinamig ag ydyw heddiw, gyda dros 50,000 o aelodau ledled y wlad a gweithgareddau'n ymestyn ar draws y byd. Bydd y gyfrol yn cael ei chyhoeddi i gyd-fynd gyda'r dathliadau yn 2022.

Mae angen deunydd ar gyfer y 70au, 80au a 90au ac mae Myrddin yn awyddus i gysylltu gyda rhai fu'n ymwneud â'r Urdd dros y degawdau hyn yn benodol. Arhosodd miloedd o blant yng ngwersylloedd Llangrannog a Glan-llyn, aeth degau o blant a phobl ifanc ar dripiau dyngarol yr Urdd - mynd a rhoddion i gartrefi plant yng Ngwlad Pwyl a Tsiecoslofacia - a bu teithiau eraill i Gatalonia a Phatagonia. Mi fu degau o bobl ifanc hefyd yn swogio ac yn mynychu cyrsiau arweinyddion yn y gwersylloedd.

Felly os oes stori neu brofiad gennych i'w rannu, llun neu rhywbeth o ddiddordeb, yna cysylltwch â Mari Williams, Rheolwr Cyfathrebu Urdd Gobaith Cymru, ar mari@urdd.org neu Myrddin ap Dafydd ar myrddin@carreg-gwalch.cymru.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Roeddwn wedi gweld yr enw droeon ar raglenni teledu a mewn papurau dyddiol ers dau fis. Serch hynny teimlais yn chwithig iawn wrth ddarllen teyrnged yn y *Times* dyddiedig 5 Mai 2020 a gweld ar waelod y dudalen, 'He died of complications from COVID-19.'

Ei enw? John Houghton, yn ôl y *Times* 'Sir John Houghton. Stubbornly optimistic Welsh atmospheric physicist whose Nobel-winning work led to the 1997 Kyoto treaty on climate change'.

Pam y teimlad hwn, gan nad oeddwn wedi cwrdd ag ef erioed? Fy unig ymwybyddiaeth ohono oedd bod mewn cynulleidfa niferus yn gwrando arno yn traethu darlith ar ei arbenigedd, newid hinsawdd y blaned. Cefais fy nghyfareddu gan ddwy nodwedd oedd yn perthyn iddo, hynawsedd a huodledd. Roedd yn amlwg fod ei huodledd yn deillio o'i afael sicr ar ei destun a'i hynawsedd yn adlewyrchu personoliaeth dawel, gadarn gref.

Ganed ef yn Dyserth, Sir y Fflint a chafodd ei addysg gynradd mewn ysgol breifat ac uwchradd yn Ysgol Ramadeg y Rhyl. Ar sail ei ddisgleirdeb deallusol aeth yn fyfyriwr i Brifysgol Rhydychen yn 16 oed, ddwy flynedd cyn yr oedran arferol. Disgleiriodd yno hefyd; ym 1958 yn 27 oed penodwyd ef yn Athro Ffiseg Atmosfferig yn Ngholeg yr Iesu. Wedi cyfnod o ymchwil nodedig o dreiddgar mewn maes cymharol newydd, fe'i apwyntiwyd ym 1983 yn Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Feteorolegol.

Yn dilyn ei ymddeoliad yn 1990 apwyntiwyd Houghton yn Gadeirydd Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC); gwaith y panel hwn a arweiniodd at gytundeb Kyoto. Arweiniodd cyhoeddi papurau'r panel at lawer o ddadlau brwd ac annymunol iawn, nid yn lleiaf gan wledydd oedd yn cynhyrchu olew ar raddfa fawr. Drwy hyn oll roedd huodledd a hynawsedd Houghton yn allweddol at gyrraedd cymod a chytundeb.

*Neville Evans*

# Cymdeithas Edward Llwyd

**Pawb yn Elwa**

Wel dyn ni wedi bod dan glo rŵan am faint? Wyth wythnos? Dw i'n meddwl mod i wedi addasu â'r sefyllfa yn dda iawn. I ddweud y gwir, dim ond un peth sydd yn fy mhoeni i - fy ngwallt! Fel rheol dw i'n teimlo'n ffodus bod gen i lond pen da o wallt ac os mae o'n cael ei dorri yn gyson dydw i ddim yn sylweddoli ei fod yn tyfu mor gyflym. Erbyn hyn, efo pob siop trin gwallt ar gau, mae fy ngwallt allan o reolaeth yn llwyr.

Un bore roeddwn i'n eistedd allan yn yr ardd tua hanner awr wedi pump, yr haul heb ddechrau cynhesu'r diwrnod ond yn taflu golau hardd.



Roedd yr adar yn prysur ganu a finnau wedi lapio'n gynnes. Dw i'n eistedd y tu allan peth cyntaf yn y bore yn aml iawn a'r adar yn gyfarwydd iawn â fi erbyn hyn. Y bore 'ma roedd dau aderyn, yn amlwg yn ddwfn mewn cariad ond yn ddigartref. Roedden nhw'n syllu ar fy mhen ac yn dangos tipyn o ddiddordeb. Roeddwn i'n cydymdeimlo efo'u sefyllfa nhw. Ni fyddaf yn hapus iddyn nhw nythu ar fy mhen ond mi roedd un ffordd byddwn yn gallu helpu, a helpu fi fy hun ar yr un pryd.

Es i i'r ystafell ymolchi, cydio yn y siswrn a thorri'r cwbl lot i ffwrdd, rhoi'r holl wallt mewn hen focs 'sgidiau a'i osod o yng nghanol un o'r coed afalau. Ymhen awr roedden nhw wedi symud i mewn.

A finnau? Wel dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus, ond bydd rhaid gwisgo het am y tro.

Peidiwch ag edrych ar y dyddiad, nid Ebrill y cyntaf yw hi - mae'n stori wir!

Cadwch yn saff!

*Rob Evans*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Er nad ydym yn cwrdd yn ffurfiol fel y rhelyw o gymdeithasau'r wlad, mae'r swyddogion wedi bod yn ddygn yn sefydlu cangen "WhatsApp" i'r aelodau gadw mewn cysylltiad. Mae'n ffordd hwylus iawn i gymdeithasu, i rannu straeon, i godi calon ac i rannu doethineb! Daw ambell i fideo i'r golwg sy'n ddigri iawn ac adloniant pur, eraill â neges bwysig i'r byd sydd ohoni. Mae'n amlwg bod cysylltiadau eang gan aelodau'r gymdeithas, a hynny'n cael ei hadlewyrchu yn yr eitemau a'r sylwadau diddorol a ddaw i'r golwg.

Os nad ydych wedi ymuno eisoes, cofiwch wneud; gellir cysylltu ag un o'r swyddogion i gael mwy o fanylion. Bydd yn fodd i chi gadw mewn cysylltiad, i wenu neu hyd yn oed chwerthin digon i dynnu dagrau. Croeso i chi hefyd gyfrannu gyda sylw, llun neu fideo.

# CLWB RYGBI CERDDED PONTYCLUN

Fy enw i yw Mike Tough, 73, wedi ymddeol, ac yn byw yn Llyswyrny, Bro Morgannwg.

Dwi'n aelod o Glwb Rygbi Cerdded Pontyclun. Ymunais i â'r Clwb ar ôl cael damwain fawr 18 mis yn ôl, a'r llynedd cefais glun newydd, a dwi'n methu cerdded yn dda. Felly, penderfynais fod yn fwy heini.

Cyn fy namwain ro'n i'n gweithio'n rhan amser fel adeiladwr – a chwympais oddi ar y to a thorri fy mhelfis. Dw i'n gweld eisiau siarad â phobl. Wrth fynd yn henach mae'n bwysig cymdeithasu. Dw i eisoes wedi cwrdd â sawl person diddorol wrth ddysgu Cymraeg dros y saith mlynedd diwethaf.

Haf diwethaf gwelais boster *"Pontyclun Walking Rugby Club Welcomes New Members. Meet every Wednesday morning in Pontyclun Park".*

Syniad da! Felly, es i i'r parc a ches i groeso cynnes oddi wrth yr aelodau. Ry'n ni'n hyfforddi ddwywaith yr wythnos - bore Mercher a nos Lun - ac yn cael nosweithiau cymdeithasol. Mae llawer o gyn-chwaraewyr rhyngwladol yn chwarae rygbi cerdded achos eu bod nhw'n gwybod ei fod e'n gyfle i gadw'n heini.

Mae'r Clwb yn croesawu merched a dynion o bob oedran, ond ar hyn o bryd dim ond un ferch sydd yn y Clwb. Mae'r WRU yn trefnu gŵyl yn Ne Cymru. Y llynedd cawsom ŵyl yn Stadiwm y Principality gyda thimau o ledled Cymru a Lloegr. Bythefnos yn ôl cawsom ŵyl yn Rodney Parade, Casnewydd gyda mwy na chant o chwaraewyr. Darlledwyd darn ar newyddion S4C oedd yn trafod manteision rygbi cerdded.

Cawsom grant y llynedd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf a chymorth gan Hen Feddygfa Ysgol Pontyclun a Meddygfa Parc Newydd Tonysguboriau. Mae'r Clwb yn hapus i helpu'r Prosiect HAPI hefyd – sy'n helpu gwella iechyd a bywydau pobl Rhondda Cynon Taf. Felly ymunwch â chlwb lleol er mwyn cymdeithasu, cadw'n heini a chadw'n iach!

# Camau bach yn gwneud gwahaniaeth mawr



Tra bod y firws COVID-19 yn cyfyngu ein bywydau, mae'n bwysicach nag erioed i edrych ar ôl ein llesiant corfforol a meddyliol. Mae criw o blant blwyddyn 2 Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd wedi bod yn gwneud hynny drwy gymryd rhan mewn her gerdded i godi arian i Ambiwlans Awyr Cymru. Mae 13 ohonynt wedi cerdded o leiaf 52 milltir yr un dros gyfnod o bythefnos yn mis Mai. Wrth gwrs, roedd yn rhaid dilyn canllawiau'r llywodraeth, a felly gwnaed hyn drwy fynd am dro unwaith y dydd, a threulio gweddill yr amser adref yn cerdded lan a lawr y staer a rhedeg o gwmpas yr ardd!

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi eu noddi – maent bellach wedi codi dros £3000! Mi fydd yr arian yn gwneud llawer o wahaniaeth i'r elusen, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd yma. Da iawn chi blant!

Os hoffai unrhyw un arall eu cefnogi, gwelwch y ddolen isod:
https://www.justgiving.com/fundraising/jo-jones43

